

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Mawrth 2014

Rhif 442

50c

Canolfan Rachub Brwydro am ei dyfodol!

CYHOEDDWN isod lythyr pwysig ynglŷn â dyfodol Canolfan Rachub gan fod angen gwario arian sylweddol arni. Mae Cyngor Cymuned Bethesda yn awyddus i'w chadw yn agored, ond mae'n rhaid sicrhau y bydd digon o ddefnydd ohoni gan drigolion a chymdeithasau lleol i gyfiawnhau'r gwariant mawr.

Mae Llais Ogwan yn apelio arnoch i ymateb yn gadarnhaol i'r llythyr hwn.



Annwyl Gyfeillion,

Oherwydd toriadau ariannol mae Cyngor Gwynedd yn debygol o gyfuno'r ddau glwb ieuencid sydd yn cael eu cynnal ym Methesda a Rachub. Bydd hyn yn golygu na fydd clwb yn cael ei gynnal yn Rachub wedi mis Awst.

Hyd yn ddiweddar, mae clwb Rachub wedi bod yn defnyddio Canolfan Gymunedol Rachub i gyfarfod. Mae defnydd y ganolfan wedi lleihau yn sylweddol dros y blynnyddoedd diwethaf, a gyda diflaniad y clwb ieuencid bydd y defnydd yn syrthio eto.

Mae angen atgyweirio llawr y Ganolfan er mwyn gwneud defnydd o'r adeilad. Mae Cyngor Cymuned Bethesda wedi datgan eu bod yn barod i dalu cost y gwaith, pe bai defnydd o'r Ganolfan yn cynyddu.

O ganlyniad, mae'r Cyngor Cymuned a Phwyllgor y Ganolfan yn gofyn i chi gysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor cyn y 26ain o Fawrth os ydych chi'n credu bod posibilrwydd y gallech wneud defnydd rheolaidd o'r Ganolfan yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, codir ffi o £12 y sesiwn am ddefnyddio'r ganolfan (am fore, prynhawn neu gyda'r nos) a ffi o £20 am sesiwn benwythnos neu barti.

Ymddiheurwn bod hwn yn gais byr-rybudd, ond dim ond newydd dderbyn y rhybudd ynglŷn â'r Clwb Ieuencid y mae'r ddau gorff. Mae Cyngor Cymuned Bethesda yn cyfarfod ddiwedd y mis, ac yn awyddus i gael syniad faint o ddefnydd mae'r pentref yn bwriadu ei wneud o Ganolfan Rachub yn y dyfodol.

Rydym ni'n awyddus i ddiogelu Canolfan Gymunedol Rachub fel adnodd cymunedol, ond mae'n rhaid gwneud yn siŵr bod y gymuned hefyd yn awyddus i wneud defnydd ohoni.

Os gwelwch yn dda, allwch chi gysylltu â Mr Godfrey Northam yn y cyfeiriad isod i drafod unrhyw ddefnydd y dymunwch ei wneud o'r ganolfan wedi i'r llawr gael ei drwsio.

Yn gywir,

Godfrey Northam,
Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Neuadd
Rachub,
4 Llwyn Bedw,
Rachub,
LL57 3EZ
(01248) 600872

Dyfrig Jones

Cadeirydd Cyngor Cymuned Bethesda

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts ☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn ☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts ☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn ☎ 07901
dewision@hotmail.co.uk 913901

Fiona Cadwaladr Owen ☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Siân Esmor Rees ☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard ☎ 07402
trystanrp1@gmail.com 373444

Walter W Williams ☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

SWYDDOGION

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd Hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais Drwy'r Post:
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Dewi Llewelyn Siôn.

Golygydd mis Ebrill fydd Trystan Pritchard, 27 Allt Penybryn, Bethesda, LL57 3BD. 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 02 Ebrill, os gwelwch yn dda. Plygu nos lau, 17 Ebrill, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Mis Mawrth

- 25 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00
- 26 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.
- 27 Merched y Wawr Bethesda. Bethan Jones a'r Cŵn Tywys. Cefnfaes am 7.00

Mis Ebrill

- 02 Noson Goffi. Festri Bethlehem Talybont am 7.00
- 03 Sefydliad y Merched Carneddi. Sgwrs gan Gwen Jones. Cefnfaes am 7.00
- 05 Ffair Basg. Eglwys St. Mair a St Anne, Mynydd Llandygái. 11.00 – 2.00
- 07 Merched y Wawr Tregarth. "Popeth Neis". Festri Shiloh am 7.30.
- 12 Bore Coffi Cymdeithas Capel Jerusalem. Cefnfaes 10.00 - 12.00
- 12 Marchnad Ogwen. Clwb Rygbi Bethesda. 10.00 – 2.00
- 13 40fed Cymanfa Ganu Sul y Blodau. Capel Bethlehem Talybont am 7.30
- 16 Pwyllgor Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 17 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
- 24 Merched y Wawr Bethesda. Gwaith Celf Diana Williams. Cefnfaes am 7.00

Mis Mai

- 10 Marchnad Ogwen. Clwb Rygbi Bethesda. 10.00 – 2.00
- 18 Cymanfa Dosbarth Bangor a Bethesda ym Mynydd Llandygái am 5.30

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mis Mawrth

- £30.00 (172) Wendy Jones
Bron Arfon, Rachub
- £20.00 (88) Marian Owen, Y Trallwm
- £10.00 (56) Ann Evans, Penisarwaun
- £ 5.00 (144) Morgan Huw Evans,
Cae Glas, Rhiwlas

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40



Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
☎ 01248 600184

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Rhoddion i'r Llais

- £30 Er cof am y diweddar Emlyn Jones, a fuasai'n 100 oed ar 21 Mawrth, oddi wrth Gareth a'r teulu
- £5 Di-enw, Talybont
- £5 Er cof am ben-blwydd fy mrawd, Trevor V. Pritchard, 23 Mawrth 1942. "Dyma'r dydd sy'n dwyn atgofion". David, Rhes Elfed.
- £5 Karen Williams, Hen Barc.
- £10 Ken Jones, Edgware
- £100 Cyngor Cymuned Llanllechid
- £20 Er cof annwyl am John Gareth Parry. 45 Adwy'r Nant, ar ei ben-blwydd (26 Chwefror) a Roberts (Bob) Parry, 43 Adwy'r Nant ar ei ben-blwydd (18 Mawrth). Cariad mawr. Anne a'r teulu
- £50 Dienw, Llanberis.
- £4.50 Andrew a'r teulu, Pantglas, Bethesda.

Diolch yn Fawr

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan **Tasg**,
50 Stryd Fawr Bethesda,
LL57 3AN ☎ 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669

Annwyl Ddarllenwyr

**Pen y Ceunant Isaf
Llwybr yr Wyddfa
Llanberis
Gwynedd**

7 Mawrth 2014

Annwyl Olygydd,
Ysgrifennaf hyn o lythyr yn y gobaith y gall rhai o ddarllenwyr y Llais fy helpu.

Rwyf angen gwybodaeth o Ddyffryn Ogwen am hanes yr Ail Ryfel Byd o ardal Rhiwlas a Beran Deiniolen a Moel Rhiwen o gylch Pen y Bwlch, Mynydd Llandygái. Hefyd, mae'n bwysig cael gwybod a oedd Americanwyr yn aros yn yr ardal o gwmpas cyfnod yr Ail Ryfel Byd.

Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth, ac yn arbennig os oes gan rywun luniau o'r Americanwyr - yn filwyr neu yn aelodau o'r llu awyr.

Gallwch gysylltu â mi ar 01286 872606, neu â Neville Hughes ar 01248 600853.

**Yn gywir iawn,
Steffan Roberts.**



Gofal Ychwanegol Bangor

Cae Garnedd, Penrhosgarnedd, Bangor

Datblygiad ar y cyd gan Dai Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd a fydd yn gyfle gwych i bobl hŷn fanteisio ar ffordd o fyw annibynnol mewn cymuned ddiogel a chartrefol gyda gwasanaeth gofal hyblyg.

Bydd cyfres o sesiynau galw heibio gyda swyddogion o Dai Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd yn cael eu cynnal i rannu gwybodaeth am y datblygiad:

**Canolfan Cefnfaes, Bethesda -
30/04/2014; 10:00am - 12:00pm**

Clwb Hiracl, Bangor -

30/04/2014; 1:30 - 3.30pm

Capel Berea Newydd, Bangor -

2/05/2014; 10:00am - 12:00pm

Canolfan Penrhosgarnedd, Bangor -

7/05/2014; 1:00 - 3:30pm

☎ 01492 572727 •
🌐 www.nwha.org.uk
☎ 01286 685054 •
📧 www.evelynparry@gwynedd.gov.uk



Y BWTHYN TE pen y ceunant isaf

LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS

PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR
WAELODION LLWYBR YR WYDDFA
(D LLANBERIS)
YN YSTOD Y 1500. GAHRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG
YMA, YN OGYSTAL A
GOLYGFYDD GWYCH DROS
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am - 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYD
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL

**Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill**

(01286)872606 www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

Chwarelwyr



Rhai o enwau'r chwarelwyr ar dudalen gefn rhifyn Chwefror Llais Ogwan:

Sedd flaen, yn eistedd: Trydydd o'r chwith, William Arthur Jones, yna Hugh Ben Jones ac Arthur Evans.

Yn sefyll: Seithfed o'r chwith - Alun Williams, yna Cecil Hughes. Y pump o Riwlas.


Llogi Canolfan Tregarth

Os ydych eisiau cynnal gweithgaredd yn y ganolfan, yna cysylltwch â Peter Roberts 602123, Angharad Williams 601544 neu Rhys Llwyd 601606

Clwb Criced a Bowlio BETHESDA

Lôn Newydd, Bethesda, Gwynedd LL57 3DT

ClwbCricedBethesda (01248) 600833 CricedBethesdaCricket@outlook.com



Lleoliad Gwych ar gyfer Pob Achlysur

Cyfleusterau gwych ar gael i fudiadau, cymdeithasau a thrigolion.

Partïon, Bedydd, Cyfarfodydd, Gigs, Digwyddiadau, Cynadleddau, Priodasau a llawer mwy.....

I logi'r clwb ar gyfer unrhyw achlysur galwch i mewn, ffoniwch neu e-bostiwch,

Cyfleusterau: 3 ystafell fawr / 2 far / Llwyfan / Cegin, gyda chyfarpar / Digon o le parcio / Snwcer, Pŵl, Dartiau

I glywed mwy am ddigwyddiadau a chynigion y clwb a chael eich ychwanegu at gylchrediad e-byst y Clwb, e-bostiwch: CricedBethesdaCricket@outlook.com

Oriau Agor Presennol

Dydd Sul: 8pm i 12am
Dydd Llun: Ar Gais
Dydd Mawrth: Ar Gais
Dydd Mercher: Ar Gais
Dydd Iau: 8pm i 12am
Dydd Gwener: 7am i 12am
Dydd Sadwrn: 7pm i 12am

Dyddiau ac amseroedd hyblyg ar gael ar gyfer llogi'r clwb

Bethesda


Llên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ 600431

Siop Kathy
Stryd Fawr, Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

Geni



Ganwyd Scarlet Anne Carr ar 19 Rhagfyr 2014, merch i Dianne Rowlands a Tyler Carr; wyres i Tracey a Nigel Rowlands ac Anne a John Carr; gorwyres i Julie a Dafydd Rowlands, Barbara ac Arvon Roberts ac Olwen Jones; gor-orwyres i Elwyn a Llinos Jones. Llongyfarchiadau i bawb.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Llew ac Alison, Tŷ'n Llan, Pant Glas ar achlysur eu dyweddiad yn ddiweddar.

Ysbyty

Dyma rai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, a da deall eu bod yn gwella. Cofion cynnes atoch i gyd: Mrs Jane Roberts, Glanogwen; Mrs Gaynor Davies, Ffordd Ffrydlas; Darren Bullock, Ystad Coetmor.

Marwolaeth

Yn ei gartref, 3 Stryd Ganol, yn 57 oed bu farw Mr Hubert Williams, priod annwyl Mrs Sheila Williams, tad Dylan a Clare a'i chymar Alvan; a thaid i Elen, Owain a Gwen. Roedd yn fab i Mr John Williams, Abercaseg, a'r ddiweddar Mrs Evelyn Williams, a brawd i Joan a'r diweddar Neville, a mab-ynghyfraith i Mrs Betty Roberts. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Mawrth, 4 Mawrth gyda gwasanaeth yng Nghapel Jerusalem a Mynwent Coetmor lle daeth llu o deulu, cyfeillion a chydweithwyr i ddangos eu parch at ŵr tawel a pharchus. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Ddr Hugh John Hughes, Porthaethwy.

Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich profedigaeth fawr.

Yn Ysbyty Gwynedd ar 25 Chwefror, wedi salwch hir, bu farw Mr Terence James Williams, Hafan, Ffordd Bangor, gynt o 5 Pant Glas. Priod Mrs Joyce Williams, tad Diane a Tracy, tad yng nghyfraith Steven, taid Sammy, Dylan, Gethin, Thomas ac Emma, a brawd Pauline. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Mawrth 4 Mawrth, gyda gwasanaeth yn Eglwys Gatholig Richard Gwyn a Mynwent Coetmor. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

Croeso Gartref

Croeso gartref i'r Garneddwen i Hedd, Elin a'r bechgyn wedi cyfnod yn Rallt Pentir. Mae'n siŵr fod Nain a Taid ar goll hebdoch!

Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau i Margaret Llechid Roberts, Ffordd Ffrydlas ar ddathlu ei phen-blwydd yn 70 oed ar 25 Chwefror. Cyfarchion i wraig, mam a nain oddi wrth y teulu i gyd. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu, Margaret.

Dau frawd, dwy swydd

Llongyfarchiadau i Trystan a Meilir Pritchard ar eu penodiad i ddwy swydd newydd yn ddiweddar. Penodwyd Trystan yn Brif Weithredwr Hospis Dewi Sant, Llandudno a'i frawd Meilir i swydd Uwch-reolwr Marchnata, Cwmni W.R. Davies Traws-Cymru. Pob dymuniad da i'r ddau ohonynt.

Diolch

Dymuna Barrie, Wendy a theulu y diweddar Dorothy Owen (Dor) ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch am y rhoddion tuag at yr NSPCC er cof amdani ac i staff Ysbyty Eryri am eu gofal ohoni; i'r Parchedig John Matthews am y gwasanaeth ac i Mr Gareth Williams am y trefniadau tawel a pharchus. Diolch yn fawr iawn.

Diolch

Mae Olive, Maes y Garnedd am ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a phawb am eu dymuniadau da ar ei phen-blwydd yn 70 oed. Diolch arbennig i Gwyn, Einir, Michael a Keilly am y Bwffé arbennig o dda. Heb anghofio'r ŵyr a'r wyresau.

Er cof

Emlyn Jones 1914 -1987

Er cof annwyl am Emlyn Jones (gynt o Maes Coetmor, Bethesda) a fyddai'n 100 oed ar Fawrth 21 eleni.

Glenys, Gareth, John a'r teulu i gyd

Yr Eglwys Unedig

Mis Chwefror yn Yr Eglwys Unedig.

Croesawn y mis bach gan edrych ymlaen yn eiddgar at ddyfodiad y Gwanwyn.

Chwefror

Byr yw dydd a dyddiau Chwefror,
Cynt y dêl yr hwyr na'r wawr;
Chwyth y crinddail hyd y cwmwl,
Chwyth y ceinciau hyd y llawr.

Eifion Wyn.

Cofiw'n ein holl aelodau a'n cyfeillion sydd dan unrhyw anhwylder ac yn ei chael yn anodd presenoli eu hunain yn y gwasanaethau ar hyn o bryd. Anfonwn ein dymuniadau gorau atynt i gyd, yn arbennig Mrs Mair Roberts, 27 Glanffrydlas, sydd wedi ei symud o'r Ysbyty i gartref henoed, a Mr Eric Jones, gŵr Mrs Elna Jones, sydd wedi bod yn yr Ysbyty, ond sydd gartref erbyn hyn.

Ar y 4ydd, cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi dan ofal Owen John a Rhiannon gyda Jean a Gwenno yn cynorthwyo i gyfeiliant Eileen.

Ar y 9fed, bu'r Parchedig Dafydd Coetmor Williams yn gwasanaethu arnom.

I ganlyn gwasanaeth boreol byr, cynhaliwyd Cyfarfod Eglwysig. Arweinydd y cyfarfod oedd Jean Ogwen Jones, Cadeirydd y Blaenoriaid, a gwnaeth hynny yn ganmoladwy iawn. Rhoddwyd cyfle i'r Swyddogion a'r aelodau fynegi barn, rhoi awgrymiadau gerbron neu wyntyllu unrhyw bryderon ynglŷn â dyfodol yr Eglwys.

Cawsom gyfarfod llwyddiannus a diolchwn i Walter Williams, Ysgrifennydd y Capel, am ei eglurhad helaeth ac effeithiol ar y mater o wresogi'r adeilad. Derbynasom awgrymiadau a sylwadau synhwyrol ac ystyrlon o'r gynulleidfa, a diolchwn iddynt i gyd am eu diddordeb, eu cefnogaeth, a'u ffydd yn nyfodol yr Eglwys.

Nos Iau, y 13eg, cynhaliwyd y Gymdeithas dan lywyddiaeth y Fns. Rhiannon Efans. Y gŵr gwadd oedd Siôn Parry o Landegfan, ond yn wreiddiol o Borthdinllaen ac yn ddisgynydd o bum cenedlaeth o deulu gyda chysylltiadau â Badau Achub.

Heddwas yw ei waith dyddiol ond mae'n aelod rhan-amser, gwirfoddol o griw Bad Achub, Biwmares. Agoriad llygad, yn wir, oedd gwrando arno yn egluro'n fanwl am oblygiadau'r gwaith cyfrifol a pheryglus yma. Ond, mae'r 'halen yn y gwaed' o ddiffrif, fel petai, ac amhosib fuasai cadw'r gŵr hwn draw o'r môr a'r boddhad a gaiff yn achub bywydau. Rhoddwyd diolchiadau teilwng iddo gan Minnie ac i Muriel, Alwen ac Eurwen am ddarparu'r lluniaeth.

Dymuniadau gorau am siwrnai ddiogel a phleserus i Emyr a Heulwen Roberts, Ystradawel, ar eu taith i Awstralia. Bu Dafydd Llewelyn, eu mab, yn priodi ym Melbourne ar Fawrth y 1af a dymunwn yn dda iddo ef a'i bried, Jessica Scerri.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys â Siwan Puw, sydd wedi colli ei thaid, a hefyd Mrs Sheila Williams, 3, Stryd Ganol, Carneddi, sydd wedi colli ei gŵr, Hubert Williams a Mrs Betty Roberts wedi colli ei mab yng nghyfraith.

Llongyfarchiadau Llongyfarchwn Mrs Betty Roberts, Lôn Ddŵr, ar ddathlu pen-blwydd arbennig ac hefyd Mrs Beti Morris ar ddod yn hen nain unwaith eto.

Oedfaon

Mawrth 23ain	Yr Athro G.L.I. Jones	(10.00)
	Parch.R.Capon	(5.00)
Mawrth 30ain	Bnr.Richard Ll.Jones	
Ebrill 6ed	Parch.R.O.Jones	
Ebrill 13eg	Oedfa Sul y Blodau	(10.00)
	Bnr. Gwyndaf Jones	(5.00)

Adnod y mis.

A dywedodd wrthynt "Pam y mae arnoch ofn, chwi o ychydig ffydd?" Yna cododd a cheryddodd y gwyntoedd a'r môr, a bu tawelwch mawr.
Mathew 8. 26

Merched y Wawr, Cangen Bethesda

Dathlu Gŵyl Ddewi gyda Merched y Wawr, Bethesda. Cynhaliwyd ein dathliad ar y 27ain o Chwefror, dan lywyddiaeth y Fns. Elena Owen drwy fwynhau byrbryd blasus yng nghaffi Coed y Brenin.

Anerchiad y Llywydd

Wedi croesawu'r aelodau, trafodwyd yr ohebiaeth, fel a ganlyn:-

Llythyr o'r Swyddfa yn dymuno Gŵyl Ddewi hapus i'r gangen.

Gwahoddiad i Nant Gwrtheyrn

Fel 'Awdur ar Daith', cynnig gan Hywel Gwynfryn i ddod atom i sôn am ei waith fel cofiannydd

Tynnu ein sylw at Y Samariaid

Mae angen cynrychiolydd o'r gangen i gymryd rhan yng Ngŵyl yr Haf, Machynlleth, ym mis Mai. Gwirfoddolodd Pat i gymryd rhan i chwarae golff a diolchwyd iddi.

Yna, croesawyd y gŵr gwadd, sef y Prifardd Ieuan Wyn. Nid oedd angen ei gyflwyno, fel petai, gan ei fod yn wreiddiol o Ddyffryn Ogwen a phob un ohonom yn ymwybodol mor freintiedig ydym o'i gael fel Prifardd penigamp o'r dyffryn hwn.

Gŵr gwadd, hynod o addas, felly, ar gyfer dathlu gŵyl ein Nawddsant, un sydd yn ymladd yn ddiflino dros yr iaith a thros ei wlad. Ei destun oedd 'Y Prifardd R. Williams Parry'. Mewn iaith goeth, raenus, derbyniasom gefndir y bardd a disgrifiadau lliwgar a diddorol o'i farddoniaeth. Brodor o Dalysarn, Dyffryn Nantle oedd, ac yn 1922 daeth i letya i Fethesda, setlo i lawr yma, a bu cyffro mawr ar ei ddyfodiad i'r ardal. Enillodd y gadair yn Eisteddfod Bae Colwyn yn 1910 am ei awdl enwog 'Yr Haf' ac oherwydd hyn adnabyddwn ef fel 'Bardd yr Haf.'

Pan feddyliwn am R. Williams Parry daw 'Eifionydd', 'Englynon Coffa Hedd Wyn', a 'Chofadail y Milwyr', yma ym Methesda yn syth i'r cof. Mynegodd Ieuan Wyn brofiad y bardd gan dreiddio i ddyfnder ei farddoniaeth, e.e. yn 'Y Tylluanod', ceir synnwyr gweld a chlywed yn cyfleu y gwyll yn meddiannu'r dydd a chanu atmosfferig ar ei orau. Cyfansoddodd lawer o gerddi natur gyda'r ddawn o ddarganfod natur dyn yn y creaduriaid.

Diolchiadau'r Llywydd

Braint oedd cael noson fythgofiadwy gan ein prifardd lleol yn sôn am brifardd enwog yr ugeinfed ganrif. Cafodd Ieuan gymeradwyaeth haeddiannol gan aelodau'r gangen a phawb wedi llwyr fwynhau gan edmygu ei allu arbennig. Yna, cyflwynwyd tusw o flodau iddo ei roi i'w wraig, Blodeuwedd. Diolchwyd hefyd i staff Coed y Brenin am weinyddu arnom.

Y Wobr Lwcus. Rhoddwyd dwy wobwr lwcus gan Jennie a Margaret, a'r enillwyr oedd Rita (Bullock) a Rita (Evans).

Sefydliad y Merched, Carneddi

Ar nos Iau, Mawrth 6ed, croesawodd ein llywydd, Margaret Williams, bawb i'r cyfarfod ar noson o wynt a glaw.

Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth un neu ddwy o'r aelodau oherwydd amgylchiadau.

Anfonwyd ein cofion a'n llongyfarchiadau at Eirwen Williams a'i gŵr Jackie ar ddathlu eu priodas ddeimwnt ar 6 Mawrth, gan obeithio eu bod wedi cael diwrnod bendigedig gyda'r teulu a ffrindiau.

Cyfeiriodd Margaret at orwres fach Beti Williams, sydd ar hyn o bryd yn gwella yn dilyn llawdriniaeth, ac anfonwyd ein cofion at y teulu. Yr un oedd ein cofion at Gwen Davies hefyd, hithau wedi cael pen-glin newydd ac yn gwella erbyn hyn. Anfonwyd ein cofion hefyd at Doris Shaw, sydd heb fod yn rhy dda yn ddiweddar. Mae'n braf cael dweud fod pawb yn gwella!

Ein gwestwagedd am y noson i ddathlu Gŵyl Ddewi oedd parti o ferched o Lanberis, sef Bytholwyrdd. Cawsom noson o ganu a chwerthin gan y criw hwyliog gydag amrywiaeth o ganeuon traddodiadol a rhai o'r chwedegau. Fel amrywiaeth i'w rhaglen daeth tri o enwogion o fri i'n diddanu, sef "tenor o fri", "mess o soprano" a "baswr yn rhuo". Noson dda iawn i godi calon pawb!

Diolchwyd i'r genod gan Glenys Jones, ac i'r gwagedd am y lluniaeth ysgafn ar y diwedd. Jean Hughes roddodd y raffl a enillwyd gan Doris Shaw.

CAPEL BETHANIA BETHESDA

Mis Ebrill

06 Parch. E Trefor Jones, Llandudno
20 Cau - Sul y Pasg

Oedfaon am 5.30

Croeso Cynnes i Bawb

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda
☎ 600689

Diolch

Dymuna Ithel a'r teulu, Penrhiw, Braichmelyn, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd â hwy yn eu profedigaeth. Diolch hefyd am y rhoddion er cof am Idwen tuag at Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu'r ddiweddar Mrs Marjorie Richards, 52 Braichmelyn. Bu farw Marjorie yn sydyn yn Ysbyty Gwynedd ar 18 Chwefror. Meddyliwn am Paul, John, Graham a Gill a'u teuluoedd yn eu tristwch a'u hiraeth.

Mae Mr Eric Jones, 6 Cefn Cwlyn, wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd, ond y mae gartref erbyn hyn ac yn araf wella. Dymuniadau gorau i chi, Eric.

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog Trefn Gwasanaethau

Mawth

23 Y Parch. Huw Dylan
30 Y Parch. Gwenda Richards

Ebrill

08 Y Parch. Ddr Elwyn Richards
13 Y Parch. Dafydd Lloyd Hughes

Oedfaon am 2.00 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb

Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

Sul Cyntaf pob mis

Cymun Bendigaid – 8.00am
Boreol Weddi – 11.00am

Ail a thrydydd Sul pob mis

Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am

Pedwerydd Sul pob mis

Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am

Pumed Sul

Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegái a Pentir (Lleoliad i'w gyhoeddi)

Pob bore Mercher am 10.30am


Cymun Bendigaid

Arch Noa - Clwb bach yw hwn ar gyfer plant bach cyn oed ysgol. Mae'n cyfarfod yn Ysgol Abercaseg bob bore Llun am 9.15am.

Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau uchod.

Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn dioddef o unrhyw anhwylder gan obeithio y daw adferiad buan i chi i gyd.

Yn Lle yn y Dyffryn?



Dyma lun Mis Mawrth yng Nghalendr Llais Ogwan, sef Lôn Las Ogwen - gan Nigel Beidas, ond wyddoch chi ble yn union y mae'r bont? Wel, mae hi ar y rhan o'r llwybr beicio newydd sydd rhwng Bryn Bela a Phont Coetmor, cyn i chi gyrraedd y Tynal Tywyll. Mae'n werth mynd am dro yno.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Gareth a Lousie Williams, Tyddyn Canol, ar enedigaeth merch iddynt, Lauren Grace Lesley Williams.

Ysbyty

Mae'n dda gweld Mrs Helen Williams, Llwyn Bleddyn yn ôl adref wedi iddi dderbyn llawdriniaeth i'w llygaid yn Ysbyty Gwynedd.

Mae holl blant yr Ysgol Sul ac aelodau o Glwb Dwylo Pysur yn cofio at Mrs Williams. Pob dymuniad da iddi a gwellhad buan.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Violet, Raymond, Valerie, Janice a Roy a'r teulu oll yn dilyn marwolaeth Robin Owen Williams, Bangor. yn Ysbyty Gwynedd. Cofier i Violet fyw yn Stryd Britannia cyn symud i Fangor rai blynyddoedd yn ôl.

Pen-blwydd Hapus

Cyfarchion i'r Dr Brian Jones, Bron Arfon ar ddathlu pen-blwydd arbennig ym mis Chwefror.

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Braf oedd cael croesawu i'r ardal, nifer o aelodau sydd wedi symud oddi yma ers peth amser.

Daeth cynulliad da i gyfarfod diwethaf y clwb a chafwyd noson o hel atgofion pobl am Ffair Llan. Hanes rhai o'r cymeriadau arferai werthu llestri, dillad ac wrth gwrs India Roc yn y ffair ynghyd ag ambell i stori am bobl leol a'u campau.

Bu rhai yn sôn am yr hwyl ar y gwahanol reids a fodolai dros ddeg mlynedd ar hugain yn ôl. Mae lleoliad y ffair wedi newid dros y blynyddoedd a'r teimlad cyffredinol yw na fu'r ffair yr un fath ers gorfod symud ei chartref o'r cae ger yr Eglwys.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher, 26 Mawrth lle gobeithiwn hel atgofion am gyngherddau'r Band of Hope a gynhelid yn flynyddol gan y capeli.

Anfonwch eich deunydd ar gyfer Llais y mis nesaf erbyn dydd Mercher 02 Ebrill os gwelwch yn dda:
Trystan Pritchard,
27 Allt Penybryn, Bethesda,
LL57 3BD. 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Carmel, Llanllechid Trefn Gwasanaethau

Mawth
23 Miss Nerys Jackson 5.00
30 Parch. T. Roberts 2.00

Ebrill
06 Parch. Ddr S A Owen 2.00
13 Oedfa 5.00
20 Y Canon Idris Thomas 5.00

Ysgol Sul: 10.30 y bore
Dwylo Pysur: Nos Wener 6.30 pm
Te bach: Dydd Llun, 24 Mawrth - 2.30 i 4.00 y.p.

Croeso cynnes i bawb

Capel Bethel Trefn Gwasanaethau

Mawrth
23 Dr Tudor Ellis
30 Parchg Richard Owain Jones

Ebrill
06 Parch. Eleri Lloyd Jones
13 Y Gweinidog
20 Sul y Pasg
27 Mr Bob Morris

Oedfaon am 2.00 o'r gloch.
Croeso cynnes i bawb.

Carmel Llanllechid

Derbyniwyd rhodd garedig o £300 gan deulu'r diweddar Mr Robert Owen Williams, Ffordd y Gogarth, Bangor. Mi fydd yr arian yn mynd at waith yr Ysgol Sul a gweithgareddau'r ifanc yn y Clwb Dwylo Pysur. Rydym yn hynod o ddiolchgar i'w briod, Mrs Violet Williams, Valeri, Raymond, Janice a Roy a'u teuluoedd am y rhodd er cof am Robert.

Carmel, Llanllechid

Te Bach

Festri Capel Carmel

Pnawn Llun
24 Mawrth
2.30 tan 4.00

Croeso Mawr

CLWB HANES RACHUB A LLANLLECHID

Nos Fercher, 26 Mawrth am 7.00 o'r gloch
yn Festri Capel Carmel

Dewch â'ch storïau am gyngherddau y Band of Hope

CROESO CYNNES

Marwolaeth

Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Margaret Jones, 22 Bron Bethel, Rachub, yng Nghartref Nyrsio Cerrig yr Afon, y Felinheli, ar 21 Chwefror. Roedd yn 92 mlwydd oed, yn briod ffyddlon i'r diweddar John Owen Jones, 36 Maes Coetmor gynt, ac yn fam annwyl a charedig i Glenys, Bernard a Buddug.

Cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Carmel, Llanllechid a Mynwent Coetmor, brynhawn Llun, 3 Mawrth, gyda'r Parchedigion Hugh John Hughes, Porthaethwy, Trefor Jones, Llandudno, Dafydd Coetmor Williams, Rachub, a John Gwilym Jones, Peniel, Caerfyrddin yn gwasanaethu. Mrs. Helen Wyn Williams oedd wrth yr organ. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu profedigaeth.

Diolchiadau

Dymuna Glenys, Bernard, Buddug a'r teulu ddiolch yn ddiffuant i gymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur trist colli eu mam, Mrs Margaret Jones, yn ddiweddar. Roedd derbyn yr holl gardiau, ymweliadau a galwadau ffôn, yn gysur mawr iddynt. Diolch i bawb a gyflwynodd roddion er cof amdani tuag at Gartref Nyrsio Cerrig yr Afon a Tŷ Gobaith.

Diolch yn arbennig i staff Cartref Nyrsio Cerrig yr Afon am eu gofal tyner ohoni dros gyfnod o chwe mlynedd, heb anghofio meddygon a staff y Feddygfa ym Methesda a'r Felinheli am eu gofal diflino. Diolch hefyd i staff y Gwasanaeth Ambiwlans am eu cymorth parod bob amser.

Dymuna'r teulu ddiolch yn gynnes iawn i Mr Stephen Jones, yr ymgymerwr, am drefniadau trylwyr ac urddasol, i'r pedwar gweinidog, ac i'r organyddes, Mrs Helen Wyn Williams, am eu gwasanaeth ddydd yr angladd. Diolch hefyd i swyddogion Eglwys Annibynnol Carmel, Llanllechid, am bob cymorth, ac i Karen a staff Caffi Coed y Brenin, Bethesda, am y lluniaeth ardderchog yn dilyn y gwasanaeth yn y Capel a'r Fynwent.

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Profedigaeth

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth y ddiweddar Margaret Ann Robertson ddiwedd Ionawr. Roedd Margaret wedi ei magu yn y Gerlan, yn ferch i Emyr Hywel a Grace Owen, Stryd y Ffynnon. Yn dilyn addysg yn ysgol y Gerlan, mynychodd Ysgol Ramadeg y Merched ym Mangor, ac yna Coleg Bedford Prifysgol Llundain. Wedi graddio yno treuliodd yrfa hir fel athrawes. Roedd Margaret yn byw yn Watford, yn briod â Jim, ac yn fam i ddau fab, Osian a Rhys.

Rydym yn cydymdeimlo'n fawr iawn gyda'i theulu yn eu profedigaeth. Bydd ei ffrindiau o'r Gerlan - Linda Brown ac Erica Jones - yn ei cholli yn fawr, gan iddi gadw cysylltiad gyda hwy dros yr holl flynyddoedd.

Hen daid a nain

Llongyfarchiadau i Richard a Rhiannon Hughes, Stryd y Ffynnon, ar ddod yn hen daid a nain unwaith eto, pan aned Noah i'w hwyres, Ffion, a'i phartner, Neil, yn Stryd Cefnfaes, Bethesda. Mae Callum wedi gwirioni ar ei frawd bach newydd, fel mae'r holl deulu wedi gwneud.

Llongyfarchiadau, hefyd, i Karen ac Ian, Stryd Cefnfaes, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Pob bendith ichi i gyd fel teulu.

Brysiwch wella

Rydym yn gyrru ein dymuniadau gorau i Arfon Griffith, Ffordd Gerlan, sydd wedi cael llawdriniaeth mewn ysbyty yn Wrecsam. Rydym yn cofio atat, Arfon, yn dymuno gwellad buan i ti, ac yn ymddiheuro yn fawr na fu inni sôn am dy driniaeth y mis diwethaf.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Lynwen a Mathew, Ciltrefnus, ar enedigaeth mab bach, Cian Dewi. Rydym yn dymuno pob bendith ichi fel teulu.

Taid a Nain

Rydym yn llongyfarch Dewi a Gwen Griffith, Ciltrefnus, ar ddod yn daid a nain unwaith eto, pan aned Cian Dewi i'w merch, Lynwen, a'i phartner, Mathew. Rydw i'n sicr eich bod wedi gwirioni efo'r bychan.

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo gyda Siân a Tony Owen, Llwyn Rhandir, Ciltwillan, yn eu profedigaeth o golli tad Sian, y diweddar Glyn Parry, oedd yn trigo yn Neganwy. Bydd yn golled fawr i Osian, Pedr, Math, a Siwan i golli taid mor arbennig. Bydded ichi, fel teulu, dderbyn ein cydymdeimlad llwyr yn eich profedigaeth.

Llawdriniaeth

Rydym yn gyrru ein cofion at Lynne Pierce, Stryd Goronwy, sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Pob dymuniad am wellad llwyr a buan iti, Lynne.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Glenys Lloyd, Parc Penrhyn yn ei phrofedigaeth ddiweddar o golli ei chwaer, Mrs Eryl Rhian Hold.

Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys â Mrs Bethan Griffiths, Bro Emrys, Talybont, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer Mrs Mair Davies a oedd yn byw yn Nyffryn Ardudwy.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth sydyn Miss Jennie Gordon, Porthaethwy yn Ysbyty Gwynedd ar 11 Chwefror. Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Myra Jones, ei chwaer, Mr Keith Jones ei nai, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Roeddwn yn adnabod Jennie'n dda pan yn bentyn yn Ysol Sir Bethesda ond deuthum i'w hadnabod yn well pan ddaeth yn bennaeth yn Ysgol Cae Top, Bangor Uchaf.

Cawsom flynyddoedd hapus iawn yn ei chwmmi. Roedd yn amyneddgar, yn foneddigaidd ac yn llawn hwyl bob amser. Bendith Duw ar bawb sydd wedi colli rhywun annwyl.

Gwaeledd

Dymunwn adferiad llwyr a buan i Ernie a Nerys Coleman, Beryl a Him Hughes, Dr Pam Jones, Olwen Latham, Cassie Tindall, Betty Williams a Dorothy Proudley-Williams. Mae'n amlwg eich bod wedi hen ddfilas ar yr holl wynt a glaw rydym wedi eu cael yn ddiweddar, ond rhaid edrych ymlaen at y gwanwyn sydd ar y gorwel; mae'r dyddiau yn ymestyn yn barod.

Cyngerdd Dathlu Gŵyl Ddewi

Mae trigolion ardal Llandygái wedi cael gahoddiad eleni eto i ymuno gydag Adran y Babanod yr ysgol am baned, cacen a chan i dathlu Gŵyl Ddewi ar ddydd Mercher, 3 Mawrth.

Os y bydd yn gyngerdd rhywbeth yn debyg i'r llynedd mae'n argoeli y bydd yn brynhawn difyr iawn i bawb. Diolch i'r plant, y pennaeth a staff yr ysgol am y gwahoddiad caredig.

Pen-blwyddi

Llongyfarchiadau i Mrs Muriel Owen, 5 Pentre Llandygái a fydd yn dathlu ei phen-blwydd ar ddydd Iau 17 Ebrill – gobeithio y cewch ddiwrnod wrth eich bodd, Muriel.

Bydd Mrs Pauline Edwards, Hen Dy'r Ysgol yn cael ei phen-blwydd ar 17 Ebrill hefyd – dathliad hapus i chwithau, Pauline.

Ar ddydd Gwener, 25 Ebrill bydd Miss Mary Robinson, Fern Cottage yn cael ei phen-blwydd. Ein dymuniadau gorau an ddiwrnod dedwydd i chwithau hefyd, Mary.

Sefydliad y Merched, Llandygái

Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror ar y 26ain yn Neuadd Talgai. Croesawodd Eira bawb yn gynnes, a braf oedd gweld Sheila yma ar ôl ei damwain.

Darllenwyd cofnodion mis Ionawr gan Eirlys, ac Eira yn darllen llythyr y Ffederasiwn. Bu trafod ar ei gynnwys. Rhoddodd Eira hefyd adroddiad byr o'r cyfarfod blyneddol a gynhaliwyd ym Mrynrefail ddechrau Chwefror.

Siaradwr gwadd y noson oedd Gareth Roberts o Ddeiniolen, a chawsom noson arbennig iawn yn ei gwmni. Pwnc Mr Roberts oedd "Llwybrau Lleol". Mae Gareth yn hanesydd ac archaeolegydd ac y mae'n tynnu lluniau o'r awyr o'r hen lwybrau oedd yn cael eu defnyddio yn yr hen amser. Difyr oedd gwrando ei hanes yn dilyn a cherdded y ffordd Rufeinig o Gaernarfon i Gaer mewn tri diwrnod. Aeth â ni hefyd i safle adeiladu Pont Britannia. Yno yr oedd tai i'r gweithwyr, ynghyd â siop, ysgol ac eglwys.

Noson arbennig iawn oedd hon, a phawb wedi mwynhau. Diolchwyd yn gynnes iddo gan Irene Moran.

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎352835

Llongyfarch

Llongyfarchiadau i Iwan Llŷr Griffith, Castell, am ennill gwobr gyntaf ym Mhencampwriaeth Unawdau Cymdeithas Bandiau Pres Gogledd Cymru. Mae Iwan yn aelod o fand iau Seindorf Arian Llanrug.

Newid Aelwyd

Mae Gareth ac Ann Roberts yn gadael eu cartref yng Nghaeau Gleision i fyw yn Llanberis, ble cafodd Ann ei magu. Daw hyn â chyfnod o bron i ddeugain mlynedd o fyw yn y pentref i ben. Dyma gyfnod pryd y cawsant dri o blant, sef Mared, Gwenno a Rhydian. Cyfnod hefyd pan fu'r ddau yn weithgar iawn yn y gymdeithas. Gareth, er enghraifft yn aelod gwerthfawr iawn o Bwyllgor y Neuadd Bentref, yn enwedig yn ystod yr ymgyrch i gael neuadd newydd i'r pentref. Ann, hithau, yn hael ei chefnogaeth i ddigwyddiadau yn yr ardal, yn aelod ffyddlon o Ferched y Wawr ac yn gadeirydd y gangen yn ei thro, a'r ddau yn aelodau ffyddlon o gapel Pisgah lle bu'r plant yn ddisgyblion yn yr Ysgol Sul.

Bydd yn chwith eu colli o'r pentref ond dymunwn y gorau iddynt yn

Eglwys Sant Tegai

Gwaeledd

Roeddwn yn hynod falch o glywed fod Mrs Mary Bastable yn gwella ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ym mis Chwefror, ac yn synnu ei gweld yn y cymun fore Sul, 2 Mawrth yn edrych mor dda.

Bu Mrs Joy Radcliffe yn Ysbyty Gwynedd yn ystod mis Chwefror ond mae wedi dychwelyd adref ac yn gwella'n araf bach.

Dymunwn y gorau i Mrs Siân Evans sy'n disgwyl cael mynd i'r ysbyty am lawdriniaeth. Gobeithio y cewch fynd heb oedi gormod, Siân.

Anfonwn ein cofion anwylaf at Mrs Bethan Griffiths, Bro Emrys, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar – brysiwch wella, Bethan.

Anfonwn ein cofion cynnes at bawb sydd wedi eu caethiwo yn eu cartrefi: Mrs Jane Couch, Mr Gwynne Edwards, Mr Harry Gross, Mrs Jackie Williams a Mr a Mrs Keith Irons, a phawb arall sy'n wael.

Diolchiadau

Cawsom noson hwyliog yng Ngwesty'r Bulkeley ym Miwmares yn y cinio ar nos Wener, 7 Chwefror. Roedd aelodau o'r tair eglwys yno a phawb wedi eu plesio gyda'r bwyd, y gwmniaeth a'r adloniant. Diolch o galon i Phyllis, Muriel, Bethan ac aelodau Maes y Groes am drefnu popeth. Mae ein dyled hefyd i staff y Bulkeley am weini arnom mor rhagorol tra roeddwn yno.

Diolch i Miss Dorothy Hanks am drefnu stondinau elusennol – unwaith yn Ysbyty Gwynedd a dwywaith yng Nghanolfan Deiniol ym mis Chwefror. Codwyd £457.92 dros y tridiau. Diolch hefyd i Rhian, Nerys, Ann a phawb arall a fu'n cynorthwyo Dorothy mewn unrhyw fodd.

Darlith

Nos Wener, 26 Chwefror yn Eglwys Sant Tegai cynhaliwyd darlith arbennig gan Mr Richard Westmacott Bennet ar "Achos Rhyfedd Arglwydd, y Gofeb, a'r Cerflunydd Cymdeithas". Er mai nifer fach oedd yn bresennol roedd yn noson ddfyr iawn a chodwyd £215. Diolch yn fawr i Mr Richard Bennet, i bawb a drefnodd y noson ac i'r merched am y lluniaeth yn y neuadd.

eu cartref newydd, gan obeithio taro arnynt am sgwrs o dro i dro.

Capel Pisgah

Ar ôl sawl blwyddyn o wasanaeth clodwiw mae Mr Merfyn Jones yn ymdeol o'i ofalu am Bisgah. Dymuniad yr aelodau yw diolch iddo am ei ofal ohonynt gan obeithio y caiff ef a Mrs Jones gyfnod maith o iechyd a hapusrwydd i fwynhau eu hymddeoliad. Y Parchedig Gwynfor Williams, Caernarfon, fydd â gofal o Bisgah o 1 Mawrth ymlaen.

Merched y Wawr Rhiwlas

Cyfarfu'r Gangen ar 11 Chwefror. Llywydd y noson oedd Ann a chafwyd ymddiheuriadau gan Megan a Dilys.

Dyma'r cyhoeddiadau: Mantell Gwynedd am gael gwirfoddolwyr i siarad â'r henoed; dyddiad a gwybodaeth am gystadleuaeth yr Ŵyl Haf a Sioe Llanelwedd; hefyd Anna Pritchard efo mwy o sgarffiau i'w gwerthu.

Y gŵr gwadd oedd André Lomoziac ac roedd ganddo hen luniau o Ddyffryn Ogwen. Eglurodd fod newid mawr wedi digwydd yn y fro yn ystod y 1970au a'r 80au, pan sylweddolodd fod nifer o gapeli'n cau a phenderfynu bod rhaid cael cofnod ohonynt. Felly, aeth ati i dynnu lluniau, a nawr mae ei gamera wedi eu cofnodi.

Bellach mae rhai o'r capeli yma wedi'u dymchwel neu wedi'u defnyddio at ddibenion eraill. Roedd maint y capeli a'r gwaith cywrair ynddynt yn peri syndod inni. Diolch fod cofnod ohonynt.

Yn ychwanegol bu André am flywyddyn gron yn y 90au yn tynnu lluniau bywyd pob dydd ym Methesda. Roedd tipyn o'r siopau wedi newid neu wedi diflannu. Roedd y gwaith yma yn gofnod pwysig o'r cyfnod ac amryw ohonom yn adnabod rhai a oedd yn y lluniau.

Sali a ddiolchodd iddo ar ein rhan. Cawsom noson ddfyr o hel atgofion a gwerthfawrogi'r gwaith a wnaeth Andre i gofnodi hanes yr ardal.

Annes a Gwen oedd yn gyfrifol am y baned a Linda enillodd y raffl.

Clwb Rhiwen

Yn y cyfarfod diwethaf buom yn chwarae gemau bwrdd ac roedd tipyn o gyffro a gweiddi pan oedd y dis yn dangos rhif chwech! Roedd y grŵp Scrabble yn dipyn mwy syber! Cytunwyd inni gael pnawn hynod o ddfyr. Diolch i Ann a Frances am wneud y baned. Aeth rhai ohonom hefyd i'r Galeri yng Nghaernarfon i weld y ffilm Philomena a gwnaeth argraff fawr arnom. Diolch i Ann am wneud y trefniadau.

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Diolch
Dymuna Bethan Griffiths, 62 Bro Emrys, ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad ddangoswyd tuag ati yn dilyn marwolaeth annisgwyl ei chwaer yn ddiweddar.

Capel Bethlehem

Mawrth

- 23 Mr Alan Wyn Roberts,
Brynsiencyn
30 Mr Richard Llwyd Jones,
Bethel

Ebrill

- 06 Parchg. John Lewis Jones,
Llandudno
13 I'w gyhoeddi
20 Parchg. Harri Parri,
Caernarfon.

**Oedfaon am 2.00
oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.**

Bwrlwm Bethlehem

Nos Fercher, 26 Chwefror, bu criw'r Bwrlwm yn swpera yn Bistro Coed y Brenin, Bethesda, i ddathlu Gŵyl Ddewi. Mwynhawyd y noson yn fawr a phawb yn canmol y bwyd a'r cwmni.

Oedfa Gŵyl Ddewi

Ar brynawn Sul, 2 Mawrth, bu cynulleidfâ Bethlehem yn cofio am ein Nawdd Sant. Y rhai gymerodd ran yn yr oedfa oedd Mr. Iola Williams, Mrs Jean Hughes, Mrs Enid Lloyd Davies a Neville Hughes. Mrs Barbara Jones oedd wrth yr organ.

Yr Ysgol Sul

Mae'r plant wedi bod yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer y Noson Goffi a gynhelir yn y festri nos Fercher, 2 Ebrill. Bydd yr elw yn mynd at Apêl Haiti.

Cymanfa Sul y Blodau

Cynhelir 40fed Cymanfa Sul y Blodau Cymdeithas Talybont a'r Cylch ym Methlehem ar 13 Ebrill am 7.30.

I'n helpu gyda'r dathlu bydd Mrs Grês Pritchard yn dod a'i dau gôr i'r Gymanfa eleni, sef Côr Meibion y Foel a Chôr Merched Lleisiau Llannerch.

Yr Arweinydd fydd Mr Trystan Lewis, a'r cyfeilydd fydd Mr D. Wyn Williams, Tregarth.

Cawn eitemau hefyd gan y bachgen ifanc o Dalwrn, Cai Fôn.

Dewch yn llw i ddathlu – ac i ganu!

Eglwys Maes y Groes, Talybont

Gwaeledd

Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan at sawl un sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar: Mrs Bethan Griffiths a Mr Brian Hughes, Bro Emrys, sydd wedi cael llawdriniaeth, a hefyd Andrea Hutchinson-Smith, merch Cora a Howard Hutchinson, Felin Cochwillan, a gafodd ei tharo yn ddifrifol wael yn sydyn iawn ddechrau mis Chwefror. Mae hi yn gwella, diolch a fo i Dduw, ac yn dod yn ei blaen yn dda dan ofal y tîm meddygol yn Ysbyty Wakefield.

Rydym yn colli cwmni Mr Keith Irons, Darllynydd Lleyg, oedd yn arfer arwain ein gwasanaeth Boreol Weddi ar yr ail Sul bob mis. Cofiw'n amdano fo a'i wraig, Linda, y ddau yn aelodau Eglwys y Stantes Fair, Gelli, ac yn wael ar hyn o bryd.

Rydym yn falch o allu sôn bod Mrs Pat Morrell, Capoch, yn llawer gwell ar ôl cyfnod yng Nghartref Cerrig yr Afon, y Felinheli, a Phlas Garnedd, Llanberis. Mae hi'n disgwyl aros ym Mhlas Garnedd am sbel eto, a buasai hi wrth ei bod gweld hen ffrindiau pan fydd yn gyfleus.

Cinio

Ar Chwefror 7fed, daeth aelodau a chyfeillion y tair eglwys yn ein grŵp - sef St Cross, St Tegai a'r Santes Fair, Gelli - ynghyd i fwynhau cinio rhagorol yng Ngwesty'r Bulkeley, Beaumaris. Roedd y Parchedig John Matthews a Mrs Sue Matthews wedi paratoi cwis "Enwch y dôn", a chystadlueaeth "Tynnu llun dan fwgwd". Diolch i John a Sue am yr hwyl, ac i Mrs Phyllis Davies am drefnu noson llwyddiannus.

Bore Coffi

Mae'r Bore Coffi yn Ysgoldy Maes y Groes ar y dydd Mawrth cyntaf bob mis yn mynd o nerth i nerth, ac yn rhoi cyfle i bobl o gymuned Tal-y-bont a thu hwnt i ddod at ei gilydd, ac i aelodau Clwb Cerdded Bethesda gael seibiant bach ar eu taith. Hefyd, mae yna gyfle i brynu llyfrau a chryno-ddisgiau ail-law, efo'r elw yn mynd at Dŷ Gobaith. Diolch i bawb sy'n trefnu'r bore coffi yn ei dro.

"Café Church"

Cyfarfod "caffi" eglwys anffurfiol ar gyfer bob oedran yw hwn. Rydym yn cyfarfod yn Ysgoldy Maes y Groes am 3 o'r gloch y prynhawn ar yr ail Sul bob mis, heblaw mis Awst, nid yn unig i fwynhau panad a sgwrs, ond hefyd i ganu a gweddio, ymchwilio, dysgu, darlunio a gwneud pethau creadigol ar sail crefyddol ond gyda chysylltiad â bywyd bob dydd. Er enghraifft, ym mis Chwefror, bu i ni ddysgu am ystyr yr oren "Cristingl" trwy addurno cacennau (a'u bwyta nhw wedyn, wrth gwrs!). Ymunwch â ni i brofi rhywbeth gwahanol.

Y Garawys

Yn ystod y Garawys, bydd cwrs yn cael ei gynnal yn Eglwys y Sts Fair, Gelli, am 2 o'r gloch bob pwan Mercher yn edrych ar y ffordd y gwnaeth cymeriadau arwyddocaol y Beibl nesáu at Dduw. Mae'r eglwys ym Methesda, Mynydd Llandygai, Pentir, Tregarth, Tal-y-bont a Llandygai yn dod ynghyd ar gyfer y cwrs sydd yn agored i bawb o'r ardal.

Yn ei lythyr misol i'r plwyfi, yn lle rhoi gorau i rywbeth yn ystod y Garawys, mae'r Parchedig John Matthews yn ein hannog yn hytrach i ddechrau rhywbeth, waeth pa mor fychan, a gweithredu o ddifrif i gyflawni cenhadaeth yr Iesu yn ein cymunedau.

Festri'r Pasg

Cynhelir cyfarfod Festri'r Pasg Eglwys St Cross - sef Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yr eglwys - am 7 o'r gloch nos Fawrth, Ebrill 8fed yn Ysgoldy Maes-y-Groes, Tal-y-bont. Mae'n gyfle i bob aelod gael dweud ei ddweud ym mywyd yr eglwys a dangos ei gefnogaeth i'r Ficer, y swyddogion ac aelodau'r Cyngor Plwyfol Eglwysig.

Glasinfryn Caerhun

Marred Glynn Jones

2 Stryd Fawr, Glasinfryn, Bangor LL57 4UP
☎ 01248 351067
Marred567@btinternet.com

Sefydliad y Merched

Bu rhaid gohirio ein cyfarfod ar y 12fed Chwefror oherwydd y tywydd garw ond, diolch byth, cawsom noson arbennig yr wythnos ganlynol yng nghwmni Andrew ac Alice o'r Garden Hotel a Liying Zhang a'i chyfeillion o'r brifysgol.

Llywyddwyd y criw bach ohonom gan y Dr Ann Ilesley. Roedd sawl ymddiheuriad a chydymdeimlwyd â nifer o'r aelodau sy'n wael, rhai â phroblemau teuluol a rhai wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty.

Llongyfarchwyd Mrs Muriel Pritchard ar ddathlu ei phen-blwydd yn 95 oed. Chwith gweld dwy gadair Mrs Pritchard a Mrs Grace Mudd yn wag yn y ffyrnt lle bu'r ddwy yn ffyddlon i bob cyfarfod. Ond fe ddaw'r gwanwyn a byddwn yn hynod falch o weld Mrs P. yn ôl ac efallai daw Mrs Mudd i'n plith weithiau.

Grêt hefyd oedd gweld Mair yn ei hôl er ar y baglau, ar ôl ei damwain. Clywsom fod Margaret Griffith hefyd wedi syrthio a thorri braich. Brysiwch wella, Margaret.

Wedi trafod materion croesawyd dau o Tsieina i'n plith. Eu testun oedd Diwylliant Tsieina. Liying Zhang oedd yn darlithio gan ddangos sleidiau o'u diwylliant. Roedd hi wedi graddio yn y gyfraith ac yn dod o Beijing. Yn y brifysgol ym Mangor mae hi'n darlithio ac yn hyrwyddo ei gwlad a'i diwylliant. Un o Hong Kong yw Andrew a deallasom fod Tsieina wedi ei rhannu yn 29 talaith, pob un â'i thafodiaith a'i gwisg draddodiadol ei hun. Y brif iaith yw Mandarin.

Roedd y gwisgoedd traddodiadol yn hyfryd a lliwgar a'r pwyslais ar y lliw coch gan ei fod yn eu tyb nhw yn lliw lwcus.

Cyn y flwyddyn 1949 roedd gan ddyn hawl i gael mwy nag un wraig gyda'r briodas wedi ei threfnu gan y teulu. Erbyn heddiw mae'r traddodiad wedi newid ond fod rheol yn bodoli mai un plentyn sydd i'w fagu bob teulu sy'n byw mewn dinas. Mae caniatâd i deulu sy'n byw yn y wlad gael ail blentyn os mai geneth yw'r plentyn cyntaf. (Waw!).

Ar gyfartaledd, oed priodi i ddynion yw 22 a merched, 20. Mae 31% o ferched yn graddio ac mae 70% yn gweithio hyd nes iddyn nhw gyrraedd 55. Yr oed ymdeol i ddynion yw 60. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cael eu magu gartref gan y teulu.

Mwynhawyd dawns draddodiadol i ddiweddu a chawsom wers ar dorri papur i wneud pob math o batrymau.

Noson wahanol iawn i'r arfer ond hynod o ddiddorol ac anffurfiol. Diolchwyd iddynt yn wresog iawn a chawsom gyfle i gymdeithasu â hwy wrth fwynhau paned.

Anfon cofion

Anfonwn ein cofion at Margaret Griffith, Caerhun. Yn anffodus, bu iddi syrthio ym Mangor yn ddiweddar gan dorri ei braich. Derbyniodd Margaret lawdriniaeth i'w throed yn ddiweddar felly rydym yn cydymdeimlo â hi yn fawr wrth iddi orfod ymdopi am gyfnod gyda'i braich mewn plaster. Gobeithio y bydd y fraich yn gwella'n fuan, Margaret.

Problemau gyda'r ffôn

Mae sawl cartref yng Nglasinfryn wedi bod yn cael trafferth efo'u ffonau tŷ yn ddiweddar, ac rydym wedi gweld gweithwyr BT yn ymweld â'r pentref yn aml wrth iddyn nhw geisio sortio'r broblem. Mae'n debyg fod y glaw trwm diweddar wedi achosi i ddŵr Gronni oddi fewn y rhydwaiith ffôn a bod

hyn wedi achosi problemau. Gobeithio fod pob dim wedi ei sortio erbyn hyn ac y cawn ni wanwyn, a haf, sych a braf!

Clwb Cant

Dyma enillwyr Clwb Cant y Ganolfan yng Nglasinfryn ar gyfer y deufis diwethaf:

Ionawr

£20 - 20 - Peter Banham
£10 - 87 - Ifor Williams
£5 - 35 - Ann Illsley
£5 - 30 - Allan Jones

Chwefror

£20 - 6 - Liz Bestwick
£10 - 140 - Carol Roberts
£5 - 10 - Betsan Newburn
£5 - 80 - Christina McCrea

**Mynydd
Llandygái****Theta Owen.**

Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái.
☎ 600744

Ffair Basg

Cynhelir Ffair Basg yn yr Eglwys ar 5 Ebrill o 11.00 tan 2.00 o'r gloch. Bydd cawl, panad a chacen ar gael yn ogystal â stondinau a raffl. Croeso! Braf fydd eich gweld!

Brysiwch wella

Da deall fod Mr Peter Rickard gartref ar ôl cael llawdriniaeth chwe wythnos mewn ysbyty yn Lerpwl. Brysiwch wella Peter!

**Eglwys y Santes Ann
a'r Santes Fair****Mawrth**

23: 9.45 Boreol Weddi
30: 11.00 Sul y Fam -
Cymun Eglwys Crist, Glangogwen
(Unig wasanaeth yn y plwyf y Sul hwn).

Ebrill

06: 9.45 Gwasanaeth Teuluol.
13: 9.45 Cymun Bendigaid (S.)
20: 9.45 Cymun Bendigaid
27: 9.45 Boreol Weddi

Cynhelir ein "Dathliad Pasg" fore Sadwrn, 5ed Ebrill rhwng 11 - 2 o'r gloch. Bydd cawl a bara ar gael am £2.00 y pen ynghyd â'n stondinau arferol. Cofiwch ymuno â ni naill ai am gawl neu baned a sgwrs.

Cofiwch am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ 601062

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor,
Tregarth
☎ 600192

Gair o ddiolch

Dymuniad teulu y diweddar Mrs Ellen Pritchard, Llety, Sling, Tregarth yw diolch o waelod calon i bawb am eu cardiau cydymdeimlad, llythyrau a chyfraniadau hael ar yr achlysur trist o golli Elin. Diolch yn arbennig i'r Parchedig Huw John Hughes, Porthaethwy am fod yng ngofal y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Shiloh, i Mr Wyn Williams am ei gyfeiliant ar yr organ a Mr Stephen Jones am y trefniadau trylwyr. Trosglwyddwyd y swm anrhydeddus er cof am Elin i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, sef £1,145. Diolch yn fawr iawn.

Profedigaeth

Ar 7 Chwefror bu farw Brian Glynne Jones, 7 Ffrwd Galed, yn 59 mlwydd oed. Cydymdeimlwn gyda Ellie ei wraig a'i fab Giles. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ar Chwefror 15.

Yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, yn sydyn, bu farw Jane (Jinnie) Gordon, Penlon, Porthaethwy, ar Chwefror 11. Gedy ei chwaer Myra Jones, sy'n byw yn Erw Faen, Tregarth, ei nai Keith a'i fab a'i ferch Liam a Lucy, a'r diweddar Angus. Bu'n athrawes yn Ysgol Cae Top, Bangor cyn iddi ymddeol. Bu ei hangladd yn Eglwys y Santes Fair, Porthaethwy a rhoddwyd hi i orffwys ym Mynwent Eglwys y Gelli, Tregarth.

Bu farw Margaret D. Hughes, 6 Bro Derfel, Tregarth a chydymdeimlwn

**Merched y Wawr,
Cangen Tregarth**

Nos Lun, Mawrth 3, dathlodd Cangen Tregarth o Ferched y Wawr eu cinio Gŵyl Ddewi ym Mwyty Tŷ Golchi, Bangor. Mwynhawyd pryd o fwyd ardderchog a chafwyd adloniant gan grŵp Triawd, sef Stephen Rees, Huw Roberts a Siôn Gwilym Roberts. Diolchwyd i staff Tŷ Golchi am eu croeso cynnes ac i'r grŵp gwerin am y gerddoriaeth werin draddodiadol werth chweil gan Buddug Roberts a Gwenda Davies.

Bydd y gangen yn cyfarfod ym mis Ebrill yn Festri Capel Shiloh, Nos Lun, Ebrill 7, am 7.30 o'r gloch pan ddaw Michelle Roberts a Margaret Swift i siarad am eu cwmni lleol 'Popeth Neis'. Croeso cynnes i bawb.

gyda'i gŵr Gwynfor, ei phlant Melfyn a Nia a'r diweddar Bryn, a'r holl deulu yn eu profedigaeth. Yn Awstralia yn ddiweddar bu farw Huw Merfyn Griffiths, mab Dilys a Hywel Griffiths, Mount Gambia, Adelaide, De Awstralia. Mae ei fam Dilys wedi ei geni a'i magu yn Bryn Poeth, Tregarth. Anfonwn ein cofion atynt fel teulu yn eu galar.

Llwyddiant Academiaidd

Llongyfarchiadau i Sioned Wyn O'Connor, Cerdd yr Awel, Godre'r Parc, Sling ar ei llwyddiant yn ennill gradd MA mewn Astudiaethau Addysg ym Mhrifysgol Bangor. Da iawn chdi, Sioned.

Swydd Newydd

Mae Llion Wyn Williams, Bethel, wedi'i benodi yn Brifathro Ysgol y Garnedd ym Mangor yn dilyn ymddeoliad Elfed Williams. Ar hyn o bryd mae Llion yn Ddirprwy Brifathro yn Ysgol Bod Alaw, Bae Colwyn a bydd

yn cychwyn ar ei swydd newydd ym Mis Medi. Hogyn o Dregarth ydi Llion ac yn fab i Carys ac Arthur Williams, Y Garreg Wen, Tal y Cae. Cafodd ei addysg yn Ysgol Gynradd Tregarth, Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda a Choleg y Brifysgol Bangor. Pob dymuniad da yn dy swydd newydd, Llion.

Gwaeledd

Anfonwn ei cofion at Val Hayward, Bro Derfel sydd heb fod yn dda yn ddiweddar. Un arall sydd wedi bod yn cwyno yn ystod yr wythnosau dwytha ydi Margaret Pritchard, Ffordd Tanrhiw. Bu Eira Crocome, Tai Teilwriaid yn yr ysbyty yn ddiweddar a da ydi deall ei bod yn gwella. Cofion at y tair ohonoch.

Capel Shiloh

Yr Ysgol Sul 10.30
Oedfa 5.00

Mawrth

16 Parchedig Philip Barnett
23 Mr J.O. Roberts, Bethesda
30 Parchedig Harri Owain Jones, Llanfairpwll
Ebrill
06 Parchedig Gwynfor Williams, Caernarfon
13 10.30 Oedfa Deulu Sul y Blodau
17 6.00 Oedfa Dydd Iau Cablyd yng nghwmni Parchedig Gwynfor Williams
20 Parchedig Geraint Roberts, Porthaethwy
27 Parchedig Jennie Hurd, Llywydd y Dalaiith

**Gwaeledd rhai o aelodau
Shiloh**

Mae nifer o aelodau'r capel heb fod yn rhy dda eu hiechyd yn ystod y gaeaf yma. Anfonwn ein cofion atoch i gyd, gan obeithio am wellhad buan unwaith y daw'r gwanwyn i'n tir. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm, sydd wedi methu dod i'r oedfaon

oherwydd gwaeledd. Brysiwch wella, Eirwen. Bydd Mrs Margaret Pritchard, Ffordd Tanrhiw a Mrs Eira Crocome, Tai Teilwriaid hefyd yn ymuno hefo ni yn y gwasanaethau yn Shiloh ac nid yw iechyd y ddwy wedi bod yn dda yn ddiweddar.

Anfonwn ein cofion at eraill sydd wedi methu bod yn bresennol yn y gwasanaethau yn ystod y gaeaf sef Mrs Eirwen Pennant Lewis, Llanfairpwll, Mrs Lilian Brocklebank, Bro Syr Ifor, Mrs Roma Griffiths, Rachub, Mrs Beti Whitehead, Cerrig yr Afon, y Felinheli a Mrs Lilian Richardson, Ffordd Tanrhiw. Brysiwch yn ôl atom i'r oedfaon yn fuan.

**Clwb 100 Canolfan
Tregarth****Mis Chwefror**

40 Sulwen Roberts	£15
35 Tudor Jones	£10
25 Arthur Williams	£5

Eglwys y Santes Fair**Gwasanaethau****Mawrth**

23: Cymun Bendigaid
30: Gwasanaeth Sul y Fam yn Eglwys Maes y Groes am 10.30

Ebrill

06: Boreol Weddi
13: Cymun Bendigaid
20: Sul y Pasg - Cymun Cymun Bendigaid am 9.00 yb

Pob gwasanaeth am 9.45 y bore ac eithrio 30 Mawrth a 20 Ebrill

Parhad dros y dudalen

**Eglwys y Santes Fair
(parhad)**

Mae olew gwresogi'r eglwys wedi cael ei ddwyn! Siom a syndod i'r gynulleidfa a phawb sy'n gysylltiedig â'r eglwys. Mae'r mater yn nwylo'r heddlu gan obeithio y cawn ryw wybodaeth am y rhai sydd wedi gwneud y fath beth.

Yr un noson cafodd olew Hen Neuadd yr Eglwys ei ddwyn hefyd ac yn ôl y sôn mae amryw un arall yn yr un sefyllfa hefyd.

Ar nodyn hapusach - cawsom de bach llwyddiannus ar 24 Chwefror, dan ofal Ceri. Roedd wedi bod yn brysus yn gwneud cacennau pinc o bob math! Diolch i bawb wnaeth gefnogi unwaith eto.

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ 01248 355686

**Eglwys
Sant Cedol****Clwb 100 Mis Chwefror**

1af (20) Roger Butler, Abertawe
2ail (28) David Roberts, Llanberis
3ydd (15) Terry Jones, Caernarfon

Swper Gŵyl Dewi
Ar nos Sadwrn y 1af o Fawrth
cafwyd swper i ddathlu Gŵyl ein
Nawdd Sant yn y ganolfan,

Glasiñfryn. Cafwyd noson hwyliog a llwyddiannus gyda ymborth o fwydydd traddodiadol Cymreig, a braf oedd cael dathlu'r ŵyl yng nghwmni ffrindiau.

Te Pasg

Byddwn yn cynnal Te Pasg a Bingo yn y Ganolfan, Glasiñfryn brynawn Sadwrn y 5ed o Ebrill am 3y.h. Croeso cynnes i bawb.

Difrod

Yn anffodus ni fyddwn yn cwrdd yn yr Eglwys am gyfnod oherwydd difrod i do'r Eglwys yn ystod y storm ar y 12 o Chwefror. Gobeithiwn y bydd y to yn cael ei atgyweirio yn fuan a bydd gwasanaethau yn aildechrau cyn bo hir. Diolchwn i'n cyfeillion yn Eglwys y Santes Ann a'r Santes

Fair, Mynydd Llandegai am y croeso cynnes.

Cofion

Anfonwn neges o wellhad i Margaret Griffith, Caehun yn dilyn damwain yn ddiweddar ac i Mai Williams, Bro Rhiwen, Rhiwlas, sydd wedi dychwelyd adref wedi cyfnod yn Ysbytai Gwynedd ac Eryri. Brysiwch wella eich dwy.

Llwyddiant Brawd a Chwaer
Llongyfarchiadau i Cedol a Marteg Dafydd yn dilyn gala nofio cenedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd. Cafodd Cedol 3ydd yn y ras dull broga 100m (blwyddyn 7-8) a Marteg ddwy fedal arian am ddulliau cefn a rhydd (50m, blwyddyn 5-6). Yn ogystal, cafodd y ddau lwyddiant yn ngala nofio Menai A&B fis Chwefror.

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?**Marchnad Ogwen**

Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol
10am - 2pm

Ebrill 12 fed

Yn y Clwb Rygbi, Bethesda

Mai 10 fed

Yn y Clwb Rygbi, Bethesda

Bwydydd, Crefftau, Caffi

www.marchnadogwen.co.uk
Twitter #marchnadogwen
Facebook

Noson Goffi**Festri Bethlehem
Talybont**

**Nos Fercher, 2 Ebrill
am 7.00 o'r gloch**

Trefnir gan yr Ysgol Sul
Elw: Apêl Haiti

**Theatr Bara Caws yn cyflwyno
DROS Y TOP****RIFIW YN NODI DECHRAU'R
RHYFEL BYD CYNTAF**

*Ma' 'na fai ar bawb yn rwla'n y gyflafan erchyll hon
Dim jest Leopald yn mynd ffor rong.
Ffor' rong!
Am bo' Leopald 'di mynd....FFOOOOR ROOOONG!!!*

Yn pendilio rhwng y llon a'r lleddf, y melyn a'r chwerw dyma gipolwg sydyn ar y pam, y sut, y pwy, a'r ble a ysgogodd y gyflafan waethaf a welodd Cymru ac Ewrop erioed.

"Sut ddaeth hi i hyn hogia'?" yw cwestiwn sylfaenol rifiw gymunedol newydd Bara Caws.

Daeth y cast ynghyd, dan fentoriaeth Aled Jones Williams, i greu rifiw newydd i nodi canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Mawr.

**Cast: Gwion Aled, Rhian Blythe,
Mirain Haf, Carwyn Jones, Rhodri Siôn**

**Cyfansoddwr a Chyfarwyddwr Cerdd:
Osian Gwynedd**

Cyfarwyddwyr: Betsan Llwyd

Cyflwyniad agosaf i Ddyffryn Ogwen :
Ysgol Glanaethwy, Ebrill 4 a 5.

Rhagor o wybodaeth gan Linda Brown ar
01286 676335.

Cymdeithas Talybont a'r Cylch**Dathlu'r 40fed
Cymanfa Ganu
Sul y Blodau**

ynghapel Bethlehem, Talybont

**Nos Sul, 13 Ebrill 2014
am 7.30 o'r gloch**

**Côr Meibion y Foel
a Lleisiau Llannerch**

(Y ddau gôr dan arweiniad Mrs Grês Pritchard)

Unawdydd: Cai Fôn Davies (Talwrn)

**Arweinydd: Mr Trystan Lewis (Deganwy)
Organydd: Mr D. Wyn Williams
(Tregarth)**

**Mynediad : £3.00
Manylion a Rhaglenni gan
Neville Hughes (600853)**

Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen

14 Mehefin 2014

Gwaith Llaw

Beirniad: Mrs Ruth Davies, Llandegfan

Dosbarth

57. Eitem wedi ei gwau â llaw (edafedd dwbl)
58. Eitem i fabi wedi ei gwau â llaw (edafedd 4ply)
59. Eitem neu ddilledyn wedi ei gwau â llaw (unrhyw edafedd)
60. Gorchudd tebot (unrhyw gyfrwng)
61. Eitem yn dangos clytwaith
62. Eitem yn dangos pwyth croes (agored)
63. Cerdyn cyfarch (unrhyw gyfrwng)
64. Bag siopa (unrhyw gyfrwng)
65. Unrhyw eitem yn dangos gwaith applique
66. Unrhyw eitem wedi ei gwnio
67. Unrhyw eitem gan ddefnyddio gleiniau/beads
68. Clustog (unrhyw gyfrwng)
69. Eitem ddefnyddiol i'r cartref
70. Eitem yn dangos unrhyw gerdd gan fardd o'r ardal.

Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â
Gwyneth Morris ☎ 01248 600596

**Ganolfan Cefnfaes
BETHESDA
GYRFA CHWIST**

**Mawrth 25
Ebrill 08, 22 a 29
am 7.00 o'r gloch**

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

**Canolfan Cefnfaes
BORE COFFI**

**12 Ebrill 2014
10.00 - 12.00**

Mynediad £1.00
Trefnir gan Gymdeithas
Capel Jerusalem

O'r Cyngor

Cyngor Cymuned Llandygái

Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yng Nghanolfan Tregarth gyda'r Cynghorydd Dafydd Owen yn y gadair.

Penderfynwyd ailosod hysbysfwrdd gerllaw Ysgol Tregarth. Mae bin newydd wedi'i osod ym Mynydd Llandygái a byddir yn gofyn am ragor ohonynt o gwmpas yr ardal er mwyn lleihau sbwriel ar y ffyrdd a'r llwybrau.

Parheir i fod yn anfodlon ynglŷn â chludiant plant i Ysgol Llandygái a byddir yn cysylltu gyda'r Cynghorydd Sir ac eraill.

Mae'r Cyngor Sir wedi cynnal arolwg a gwneud peth gwaith i wella problemau llifogydd ym Mynydd Llandygái.

Adroddwyd fod marchnad i gael ei hagor yn Neuadd Goffa Mynydd Llandygái. Mae ymholiadau ar droed am gymhorthdal ar gyfer meysydd chwarae ac i drin Canolfan Tregarth.

Derbyniwyd cwynion fod cerbydau'n cael eu parcio ar linellau melyn gerllaw ystâd Bro Syr Ifor.

Holir hefyd ynglŷn â chwblhau Lôn Las Ogwen a'r sefyllfa ynglŷn â'r twnnel.

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen



Ar nos Lun, 10 Chwefror, roedd festri Jerusalem, Bethesda, yn llawn o sŵn chwerthin iach!

Y dyn oedd yn gyfrifol am hynny oedd Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa) wrth iddo draethu ar y testun "Cythraul y Bêl Gron". Noson ddifyr a hwyliog dros ben wrth i Arwel sôn am ei brofiadau yn chwarae pêl-droed i'r Darans yn Llanberis. Braff oedd ei glywed yn sôn am rai o hogia Dyffryn Ogwen gan gynnwys sawl cyfeiriad at Brian Corbri! Meddai Arwel, "Un o'r timau gorau y bûm i'n chwarae yn eu herbyn oedd Llechid Celts!" Diolch, Arwel!

Marchnad Ogwen

O ganlyniad i ddilyn a mwynhau Modiwlau Lefel 2 mewn entrepreneuriaeth Llwyddo'n Lleol yn Ysgol Tryfan, mae Abbie Edwards wedi penderfynu mynd gam ymhellach. Mae Abbie wedi cychwyn menter ei hun ers Mehefin 2013, sef busnes cacennau o'r enw 'Llwy Bren'. Mi fydd Abbie, 16 mlwydd oed, o Lanllechid yn mynychu Marchnad Ogwen yn fisol er mwyn gwerthu ei chynnyrch.



Mae'r profiad o werthu yn uniongyrchol i'r cwsmer yn bwysig i Abbie. Wrth gael stondin reolaidd, mae Abbie yn cael ei gweld fel dynes fusnes yn y gymuned leol ac mae cyfle iddi gael archebion am gacennau achlysurol.

Yn dilyn cais llwyddiannus am fwrsariaeth Llwyddo'n Lleol, mae Abbie wedi medru cael offer o'r safon orau ar gyfer ei stondin. Roedd generadur, pabell a pheiriant coffi yn helpu i'w stondin edrych yn broffesiynol ymysg busnesau sydd wedi eu sefydlu ers blynnyddoedd. Dywed Abbie, "Mae sefydlu'r fenter wedi bod yn llwybr dysgu serth. Rwyf wedi dysgu am faterion ariannol, coginio i safon uwch, glendid a delio â chwsmeriaid."

Yn ogystal â hyn, mae Abbie yn astudio am ei lefel A yn Ysgol y Tryfan, gan ganolbwyntio ar bynciau Gwyddoniaeth.

Os hoffech fwy o wybodaeth am Llwy Bren, ewch i wefan Marchnad Ogwen <http://www.marchnadogwen.co.uk/index.htm>

T.G.S

CONTRACTWR TOEAU AC ADEILADU
 2 Glan yr Afon, Carneddi, Bethesda LL57 3TB
 ☎ 08000 126 213 tgstroofing@hotmail.com

Ffoniwch Mark i drafod eich anghenion adeiladu.
Mae gwarant 20 mlynedd ar ein toeau fflat!

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau
1874-1877

1874

- **09/02/1874:** Agorwyd yr Ysgol Frutanaidd yn yr Ystafell dan Gapel Bethesda.
- **03/1874:** Traddodi'r bregeth olaf yn 'hen' Gapel Jerusalem. Ailgodi'r Capel – yr adeilad presennol – gyda lle i 900-950 eistedd. 'Talwyd am yr adeilad a'r adeiladau cysylltiedig â'r lle, ynghyd â'r rhenti, trethi, adgywiriadau, y swm o £6605/17/11½, a chasglwyd y swm hwn trwy gasgliadau gwirfoddol ... heb gymorth na darlith, "concert" na "tea party". Bernir bod yr addoldy hwn yn un o'r rhai mwyaf, harddaf a gwerthfawrocaf yng Nghymru.'
- **04/1874:** Sefydlu Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru – codi W. J. Parry yn Ysgrifennydd Cyffredinol.
- **14/07/1874:** Yr Arglwydd Penrhyn yn

cyhoeddi y caei'r Chwarel pe dangosid unrhyw gefnogaeth bellach i'r Undeb. Y rhan fwyaf o'r chwarelwyr yn ymuno â'r Undeb yn syth.

- **20/07/1874:** Dros 2300 o chwarelwyr y Penrhyn wedi ymaelodi â'r Undeb.
- **01/08/1874:** Streic yn Chwarel y Penrhyn.
- **17/09/1874:** Y chwarelwyr yn dychwelyd at eu gwaith ar ôl bod ar streic am 7 wythnos.
- **19/09/1874:** Streic eto am na chadwyd at delerau Cytundeb Pennant Lloyd.
- **09/11/1874:** Y chwarelwyr yn dychwelyd at eu gwaith eto ar ôl bod ar streic ers Medi 19. Anfonwyd plismyn i Fethesda ar un achlysur ond pobl ar eu ffordd i'w capeli a welsant. Yn ystod y streic, casglwyd £3909/10/3 i chwarelwyr y Penrhyn.
- Ailadeiladu'r rheilffordd rhwng Chwarel y Penrhyn a'r Cei (Porth Penrhyn) ar gyfer injins stêm.
- Geni David D[avid] Evans, 8 Glanrafon, Bontuchaf. Dechrau cadw dyddiaduron pan oedd yn 20 oed (1894) a pharhau tan ei farw yn 82 oed 03/02/1955 – dros 60 mlynedd. Parhawyd yr arfer gan un o'i ferched tan 1982. Gŵr diwylliedig, Annibynnwr selog – un o golofnau'r achos yng Nghapel Treflys (a'i ddwy ferch, Margaret a Sally, ar ei ôl). Cymerai ddiddordeb byw yn hanes y fro a'i thrigolion.

1875

- Adeiladu tŷ helaeth (Fron Heulog) i weinidog Capel Hermon (MC), Mynydd Llandegai, a hefyd ystafell wrth ymyl y capel, y cyfan am £600.

1876

- **Ebrill 1876:** Dechrau trydyddadeiladu Capel Peniel, Llanllechid, yn cynnwys eisteddleoedd i oddeutu 700 o bobl, ynghyd â Thŷ Gweinidog. Costiodd £3500. Agorwyd yn

1877. Codwyd stabl a coach-house hefyd.

- Cyfartaledd cyflog yn Chwarel y Penrhyn: 7/6d y dydd.
- **Medi 4 a 5, 1876** (nos Fawrth, pawns a nos Fercher): Cynnal Eisteddfod Ponc y Workhouse yn Neuadd y Farchnad. Bernid bod rhwng 1500 a 1800 yno a llawer iawn y tu allan. Roedd yr holl destunau'n gyfyngedig i chwarelwyr y Penrhyn. Cyhoeddwyd Cynyrchion Eisteddfod Pongc y Workhouse, Chwarel y Penrhyn, yn cynwys y Cyfansoddiadau Buddugol ... gan Wm. Mark Owen, Bethesda.
- Y Bwrdd Lleol yn cadarnhau'r cynlluniau i droi Capel Siloam yn Stryd y Felin (Cae Star) yn chwe thŷ.

1877

- **07/02/1877:** Agor is-gangen o'r National Provincial Bank of England ym Methesda. Newidiwyd yn National Westminster yn 1968.
- **15-16/09/1877** (nos Sadwrn a'r Sul): Agor Capel newydd Peniel, Llanllechid.
- **05/10/1877:** William Charles Hughes, oriadurwr a gadwai siop ar gongl y Stryd Fawr a Stryd Glanrafon, ac aelod o'r Bwrdd Lleol, yn cyflwyno cloc i'w osod ar wal y Rhinws ym Methesda. Ef, y 'Watchmaker Bach', ac yntau'n aelod o Gyngor Bethesda, a gynigiodd yn 1900 fod y cofnodion yn cael eu cadw yn Gymraeg a hynny am y tro cyntaf ers sefydlu'r Bwrdd Lleol yn 1858.
- Agor Capel Salem, Llanllechid.
- Codi Capel Chwarel Goch (A).
- Cylchwyl Lenyddol Jerusalem. R. O. yn fuddugol am ei draethawd ar y testun 'Hanes Dechreuad a Chynydd y Methodistiaid Calфинаidd yn Mhlwyfydd Llanllechyd a Llandegai', a gyhoeddwyd yn llyfr tua 1882/3.

I'w barhau

Côr Meibion y Penrhyn

Ailagor Siop Pringle

Ar y 1af o Fawrth, - sef Dydd Gŵyl Dewi Sant, roedd y côr yn ganolog yn seremoni ailagor stôr James Pringle yn Llanfair PG ar ôl y tân dinistriol a fu'n gyfrifol am gau'r busnes am fisoedd. Gan ei bod yn fore mor braf a'r cwsmeriaid a'r ymwelwyr yn dylifo i mewn ar fwsiau ac mewn ceir cafodd y côr berfformio wrth y fynedfa a mawr oedd y dyrfa a gafodd ei diddanu gennym. Yn wir, oeddod nifer sylweddol i wrando ar y côr yn mynd trwy ei raglen am yn agos i awr cyn mynd ymlaen i orffen eu siopa.

Caneuon newydd yn plesio

Cyflwynodd y côr ganeuon o'i repertoire sy'n dangos pa mor gatholig ac eclectic yw'r cyflwyniadau a geir ganddo bellach a dangosodd y gynulleidfa gyda'i chymeradwyaeth gynnes pa mor dderbynol yw ein rhaglen gan y mwyafrif erbyn hyn. Cyflwynwyd Nkosi Sikelele Afrika, trefniant newydd gan Owain Arwel, ein harweinydd, o ran o'r anthem o Dde Affrica yr oedd y diweddar Nelson Mandela mor hoff ohoni. Mae'n harweinydd wedi ei huno â Tshotolozza, y gân werin, i greu tôn gyffrous a bywiog gydag Arwel yn chwarae'r drwm Affricanaidd yn gyfeiliant iddi. Cân arall sy'n newydd i ni yw Dagrau, sef cyfieithiad o Tears in Heaven gan Eric Clapton ac mae ein fersiwn ni yn cynnwys un pennill yn y Saesneg wreiddiol.

Ymwelwyr wedi gwirioni

Ar ben hynny cyflwynwyd Benedictus gan Robat Arwyn ynghyd â detholiad o emyn-donau fel Calon Lân a chaneuon Cymreig traddodiadol megis Myfanwy ar gais aelodau o'r gynulleidfa. Bu Tom Williams o Hen Barc sy'n canu gyda'r ail denoriaid yn siarad gyda Jeff Wilkes a'i wraig Maeve o Blackburn yn Swydd Caerhirfryn a dywedodd y ddau, "Mi gawson ni wefr anghyffredin yn gwrandao arnoch chi bore 'ma ac mae hyn wedi ychwanegu'n fawr at y profiad ddoc i'r pentref gyda'r enw hiraf yn Ewrop – diolch yn fawr i chi."

Gwerthwyd mwy o gopiâu o Anthem, CD ddiweddaraf y côr, a dymunwn ddiolch i Gerry Baker o Lanfairfechan am ei holl waith gyda'r trefniadau gwerthu – mae'r gwerthiant bellach yn ymylu at fod yn record i werthiant CD gan gorau meibion.

Cymeriadau'r Côr

Cyfes yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Derek Griffiths, (Derek TV) Rhos y Coed, Bethesda. Bu Derek yn gweithio ym myd teledu a radio am flynyddoedd cyn gorffen ei yrfa fel rheolwr technegol gyda Cynnal yng Nghaernarfon.

Be' ydy dy enw llawn? - Derek Griffiths

Oed? (ta' ydy hynny'n breifat?) - 67

Lle wyt ti'n byw?- Rhos y Coed, Bethesda

Un o lle wyt ti'n wreiddiol? - Pesda

Pa dri o'r rhain fasai'n dy ddisgrifio orau?

Hapus / Bywiog / Anturus / Medrus / Mwynhau Bywyd / Tawel / Hoffi

cwmni / Hael / Gofalus efo arian / eisiau bod yn unawdydd / Un sy'n canu

yn y bath? Anturus / Mwynhau Bywyd / Hapus

Ers faint wyt ti'n aelod o'r Côr? - 1982

Pa lais wyt ti? - Tenor 2

Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn? – Hoff o gwmni

Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr? – Benedictus

Pwy ydy dy hoff ganwr / gantores? – Placido Domingo

Beth ydy dy farn di am ganu pop? – Mae yna dalent mewn rhai o'r grwpiau pop

Oes gen ti atgof difyr am ryw ymweliad efo'r Côr? – Canu yn un o gyngherddau coffa Dame Myra Hess yn y Preston Bradley Hall sy'n rhan o Ganolfan Ddiwylliadol Chicago.

Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r Côr? – Mwynhau cwmni'r wyrion a'r wyresau, chwarae golff, a gwylio rygbi.

Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y Côr yn ei wneud? – Parhau.

Colli Aelod

Ychydig ddyddiau cyn i'r rhifyn hwn ymddangos, daeth y newyddion trist am farw un o aelodau'r côr, sef Richard Lewis neu Dic Aber i'w gyfeillion. Roedd Dic wedi bod yn wael am amser cyn iddo gollu'r frwydr a bu farw yn Hosbis Dewi Sant, Llandudno. Roedd wedi bod yn byw ym Mhatagonia am rai blynyddoedd cyn dychwelyd i fyw yn Llanfairfechan. Cawsai bleser mawr yng nghwmni hogiau'r côr a bydd bwlch mawr ar ei ôl. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'i deulu a'i gyfeillion.

OWEN'S TREGARTH

Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

07761619475



www.owenswales.co.uk

JR SGAFFALDIAU Cyf. JR

SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE

e-bost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda

◆ PROFION M.O.T. ◆

GWASANAETH ◆ ATGYWEIRIO
◆ TEIARS A BATRIS ◆
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723

Ffacs: 605068

Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG



BETHESDA
01248 600171
torg@hotmail.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT

SYMUD TŶ

Ymgymwrwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

Bryan Jones

*Clirio tai
Mân-weithiau
Cludiant ysgafn*



(Waeth pa mor fychan y dasg)

Ffôn: 01286 673121

Ffôn Lôn: 07527634023

e-bost: bryanrajonesandson@yahoo.co.uk
www.facebook.com/bryanrajonesandson

Sefydlwyd

1969

m.hughes a'i fab

CONTRACTWYR TOI

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

**Ffoniwch
01248 601164**



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

YSGOL YRRU

DerfeL

07982 076 455

01248 605 325

derfelowen@sky.com



Haulfryn - Llanllechid

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Nyth y Gân

Tanio'r Gannwyll

Wedi'r hynod ddifrodi newidiodd
Y dudew gartrefi,
A gwael oedd ei golau hi
O lusgo'r fflam i losgi.

Robert Burns, y bardd o'r Alban.

Gwahoddwyd Robert Burns, y bardd,
Gan wr cyfoethog draw i'w ardd
I blith rhai uchel iawn eu ffröen
Heb feddu craith na llid ar groen.

Ni allai glosio at y rhain,
Y rhelyw ffug mewn dillad cain;
Â'i bensil ef rhwng bys a bawd
Ei destun oedd y werin dlawd.

Ac yn y cwmni yr oedd un
Mewn carpiâu tlawd ar ben ei hun,
A'i gyfarch fel 'tae'n ffrind a wnaeth
Er ei fod yno'n llwm a chaeth.

Dyrchafu wnaeth â'i hynod gamp
O weld y dyn ac nid y tramp;
Er tlotted ydoedd yr hen frawd
Roedd mwy i hwn na gwisg a chnawd.

Gwynt

Yn uwch ac yn uwch mae'n ochain, a'i sŵn
Heno sydd mor filain;
Ffrwydro drwy'r nef gan lefain
A chwipio'r môr mae'r gwynt main.

Dafydd Morris

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ddechrau mis Chwefror aeth nifer o'r aelodau i gyfarfod o Blaid Lafur Arfon, yn bennaf i drafod adroddiad Williams am ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, er enghraifft y cynghorau a'r cymdeithasau tai. Penderfynwyd cefnogi'r awgrym i gael tair sir yn y Gogledd yn hytrach na'r chwe sir bresennol. Hefyd etholwyd Arnold Bohana (Caernarfon) a Louise Prendergast (Mynydd Llandygái) i fynd i gynhadledd Cymru o'r Blaid Lafur ar ddiwedd mis Mawrth.

Yng nghanol y mis aeth cynrychiolwyr o'r Dyffryn i gyfarfod ym Mhorthmadog er mwyn ailsefydlu Plaid Lafur Gwynedd ar ei newydd wedd. Etholwyd Godfrey Northam (Rachub) yn Isgadeirydd a K.C. Gordon (Llanllechid) yn Ysgrifennydd. Cafwyd adroddiad gan arweinydd Grŵp Llafur Cyngor Gwynedd (Brian Jones, Cwm y Glo) a thrafodaeth ddifys ar waith y Cyngor.

Hefyd, yng nghanol y mis aeth nifer i gyfarfod ag Ann Clwyd A.S. ym Mangor i drafod iawnderau dynol aelodau seneddol mewn gwledydd eraill, am fod cymaint ohonynt yn cael eu caethiwo a'u carcharu.

Yna ar ddiwedd y mis, cynhaliwyd cyfarfod misol y gangen i glywed adroddiadau am Gyngor Gwynedd, (e.e. ni fydd grant o £3000 i'r cynghorau cymunedol, y pryder am ddŵr yn mynd i anheddau ym Mynydd Llandygái), yn ogystal â materion eraill fel gwaith Llywodraeth Cymru (e.e. mwy o swyddi i bobl ifanc ac ysgolion da yn helpu ysgolion gwael i wella).

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30 Nos Fercher, 26 Mawrth yng Nghanolfan Cefnfaes.

CHWILAIR MAWRTH 2014 Gwledydd Ewrop

A	A	W	F	H	R	D	I	E	J	L	P	C	M	B	V	B	H	X	J
U	R	A	O	D	N	A	E	I	S	O	V	S	H	E	I	M	G	V	H
M	D	W	H	U	Z	M	X	N	R	V	A	D	D	N	A	P	A	U	Q
U	S	O	A	I	S	W	R	T	M	F	L	R	P	Y	Q	Z	G	R	H
C	U	M	W	A	N	O	I	Y	R	A	I	A	A	S	Z	U	T	F	D
X	U	P	W	R	W	W	H	C	Q	H	R	W	T	E	H	O	Y	E	E
G	E	O	M	H	G	S	E	P	T	T	C	C	B	F	B	C	U	U	J
P	L	T	M	A	I	V	T	V	D	C	B	B	F	R	I	F	O	G	J
V	I	I	L	R	R	X	I	R	M	H	T	T	O	S	K	A	O	P	W
R	C	M	K	C	B	O	R	C	I	X	V	R	Y	H	S	T	M	R	E
F	A	Y	J	D	Z	H	A	B	C	A	W	O	S	C	R	A	I	X	N
I	I	L	X	J	J	M	I	I	B	W	T	E	X	M	D	X	K	F	U
P	N	C	Q	Y	O	I	C	C	L	F	E	R	Z	Q	R	O	C	T	D
G	O	S	W	S	L	Z	A	R	E	B	E	A	J	S	K	J	C	L	N
L	T	U	R	V	O	G	F	W	J	P	W	P	W	G	S	O	W	J	J
A	S	R	Q	U	L	F	O	T	S	V	T	R	X	E	U	G	H	S	L
T	E	P	Z	E	A	F	L	X	I	W	A	T	Z	H	K	V	A	G	B
L	N	Y	K	A	D	S	S	I	K	L	O	G	D	H	B	S	I	U	R
A	O	C	X	A	G	X	R	A	E	E	E	K	K	D	A	N	T	O	G
M	W	B	M	B	J	R	F	B	U	N	K	B	Z	E	B	B	C	U	Y

Y mis yma mae DEUDEG GWLAD YN EWROP i'w canfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? Mae LL, CH, DD, TH, NG a RH yn un llythren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwila'r dangosir hwynt fel dwy lythren ar wahân.

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW. Erbyn 2 Ebrill. Bydd gwobr o £5 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd neb yn dod o hyd i'r deuddeg yna'r sawl sy'n cael y nifer fwyaf fydd yn cael y wobr.

Rwy'n meddwl eich bod wedi mwynhau chwila'r Chwefror gan fod nifer o enwau newydd wedi dod trwy'r post. Gobeithio cewch yr un pleser gyda'r testun Gwledydd Ewrop y mis yma. Cofiwch fod Ewrop yn ymestyn i'r dwyrain. Mwy o ddarhebbion y mis nesaf efallai, hwy! Andre.

Dyma atebion Chwefror: A fo ben bu bont, Athro da yw amser, Castell pawb ei dŷ, Ceffyl da yw ewyllys, Eglwys cybydd ei gist, Fe fynn y gwir ei le, Gorau cam cam cyntaf, Gwell hanner na dim, Gwell hwy'r na hwy'rach, Heb Dduw heb ddim, Hir pob aros, Ionawr cynnes Mai oer.


Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir: Lois Angharad Hughes, Gerlan; Merfyn a Laura Jones, Tregarth; Rosemary Williams, Tregarth; Mair Jones, Ffordd Bangor, Bethesda; Eirlys Edwards, Bethesda; Elizabeth Buckley, Tregarth; John a Meirwen Hughes, Abergele; G. Owen, Rhos y Nant, Bethesda; Doris Shaw, Bangor; Mrs G. Clark, Tregarth; Herbert Griffiths, Tregarth; Myfanwy Jones, Gaerwen, Ynys Môn; Mrs Glenys Jones, Llanfairpwll; Elfed Bullock, Maes y Garnedd, Bethesda; Marilyn Jones, Glanffrydlas, Bethesda; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Mrs Margaret Williams, Rhos-y-Coed, Bethesda.

Enillydd Chwefror: Marilyn Jones, 1 Glanffrydlas, Bethesda.

ebost: gwion@dioni.co.uk
tel: 01341 247 200



"CYSYLLTWCH Â NI I
HYRWYDDO EICH BWTHYN
GWYLIAU"



Caban Cysgu Beiciau i'w Ilogi



Am fwy o
wybodaeth
Cysylltwch ar
01248 605573

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Blodau Racca

PENISARWAUN

Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau
- gan hogan o Rachub

Ffôn: 01286 870605

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

MODURON PANDY Cyf.

Tregarth
Gwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.

Ffôn: 01248 600619 (dydd)

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Blodau Hyfryd

7 Rhos Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'


Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwylans Gogledd Cymru

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd



- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224



Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Lexcel

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Amlwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953
Ffacs: 602571

lsturrs@googlemail.com

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i reddeg mudiad
i wirfoddoli

cysylltwch â
Mantell Gwynedd



- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

Croesair Mawrth 2014

AR DRAWS

- 7 Ffwng sy'n llesol ynghanol ceffyl (6)
- 8 Mae tri ohonynt ar faner Sir Gaernarfon (6)
- 9 Celficyr yr ardd, yn y de efallai (4)
- 10 Mynd heb fwyd am gyfnod, fel yn amser y Grawys (8)
- 11 p.m. cynnar (5)
- 12 Ar ddydd Mawrth arbennig mae ngheg i'n grimp am un (7)
- 15 Swynol (7)
- 17 Ymylon (5)
- 20 Defnyddio 9 Ar Draws, yn y gogledd efallai (8)
- 22 Nwy fel yr un sy'n goleuo rhai lampau stryd (4)
- 23 Di-sychedu (6)
- 24 Bu farw (6)

I LAWR

- 1 Coed sycamor (6)
- 2 "Cymru fach i mi, Bro y llus a'r llynnoedd..." Dyma oedd i'r bardd Eifion Wyn (8)
- 3 Grwgnach (5)
- 4 Dwy ran o dair sy'n ddjarhebol ran o ddechrau gwaith (7)
- 5 Mynd lan o'r de i'r gogledd (4)
- 6 Un o ddarnau gêm fwrdd boblogaidd (6)
- 13 Tref seneddol gyntaf Cymru (8)
- 14 Mam Pryderi a gwraig Pwyll (7)
- 16 Rwan hyn, ar d'union ! (6)
- 18 Wedi gosod telerau cyn cytuno (6)
- 19 Ffwrn (5)
- 21 Glawio ar lafar gwlad (4)

ATEBION CROESAIR CHWEFWROR 2014

AR DRAWS

- 1 Coed, 4 Lled, 6 Rhwd,
- 8 Llosgfynyddoedd, 10 Offeren,
- 12 Taniwr, 13 Dolen, 14 Toddi,
- 15 Bale, 17 Pybyr, 19 Yr Awen,
- 21 Golchfa, 23 Tywysogaethau,
- 24 Fer, 25 Iâr, 26 Aeth i


I LAWR

- 2 Ogofeydd, 3 Degfed, 4 Llwyd,
- 5 Dwyrn, 6 Rheoli, 7 Diddordebau,
- 9 Post Cyntaf, 11 Nodyn, 12 Tebyd,
- 16 Archwaeth, 17 Persli,
- 18 Rowena, 20 Anwar, 22 Sger

Yn anffodus cafwyd llithriad neu ddau y tro diwethaf, sef 'rhad' a 'bod' yn hytrach na 'rhwd', 'arwyr' yn lle 'anwar', 'Bore Cyntaf' yn lle enw cywir y rhaglen 'Post Cyntaf'. Hefyd roedd yr ateb 'Rowena' yn anghyflawn gan un cystadleuydd. Dyma enwau'r rhai a anfonodd atebion hollol gywir : Dilys Parry, Heulwen Evans, Elwyn Jones, Rhiwlas; E.E. Roberts, Llanberis; John a Meirwen Hughes, Abergele; Dulcie Roberts, Sara a Gareth Oliver, Gwenda Davies, Tregarth; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Karen Williams, Elfed Evans, Llanllechid; Gareth William Jones, Bow Street; Jean Jones, Llanfairpwll; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Ellen Whitehouse, Birmingham; Gaynor Elis-Williams, Ann Carran, Rita Bullock, Bethesda.

Mae'r wobwr y tro hwn yn mynd i Elizabeth Buckley, 32 Maes Ogwen, Tregarth, Gwynedd LL57 4NG.

Da iawn chi.



Atebion erbyn dydd Mercher, 2 Ebrill 2014 i: 'Croesair Mawrth', Bron Eryri, 12 Gameddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Nos Fawrth, Chwefror 25ain cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol yng Nghaffi Coed y Brenin.

Cafwyd adroddiad o ddigwyddiadau'r flwyddyn gan ein Cadeirydd, Dr Paul Rowlinson, a chytunodd pawb iddi fod yn flwyddyn lwyddiannus iawn, yn boliticaidd ac yn gymdeithasol. Pwy all anghofio buddugoliaeth ysgubol Rhun ap Iorwerth ar Ynys Môn ym mis Awst? Diolch i aelodau'r Gangen a fu'n cymryd rhan yn yr ymgyrch!

Trefnwyd amryw o weithgareddau llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, ond yr un sydd yn sefyll allan yw'r noson yng nghwmni Tammy Jones a gynhaliwyd yn y Clwb Criced a Bowlio ym mis Mai.

Diolchodd y cadeirydd i bawb am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ond, ar yr un gwynt, cawsom ein hatgoffa ganddo nad oes dim llaesu dwylo i fod - gan fod tri etholiad ar y gorwel, sef Etholiad Ewrop ym mis Mai, Etholiad San Steffan yn 2015, ac Etholiad y Cynulliad yn 2016. Bydd y gwaith felly yn mynd rhagddo yn ddiymdros. Mae'r gwaith eisoes yn mynd ymlaen ar foreuau Sadwrn gyda Hywel Williams A.S.

Etholwyd swyddogion fel a ganlyn:-

Cadeirydd: Y Cynghorydd Rheinallt Puw

Is-gadeirydd: Y Cynghorydd Ann Williams

Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth: Y Cynghorydd Neville Hughes

Ysgrifennydd: Y Cynghorydd Mary Jones.

Ein gŵr gwadd am y noson oedd Marc Jones, Wrecsam sydd yn ymgeisydd Plaid Cymru ar gyfer Senedd Ewrop. A dyna oedd byrdwn ei sgwrs. Pwysleisiodd mor bwysig yw i bawb bleidleisio yn yr etholiad ar gyfer Senedd Ewrop. Os oes angen newid trefn, yna mae'n haws gwneud hynny oddi mewn i'r sefydliad yn aml iawn. Atebodd gwestiynau gan y gynulleidfa am faterion Ewropeaidd a gwnaed hynny mewn ffordd oedd yn egluro'r sefyllfa a'r system yn llawer gwell i ni.

Daeth y cyfarfod i ben gyda phaned a chacen gri a sgwrs anffurfiol ac fe dynnwyd y llun gyferbyn:



(O'r chwith) :-

Y Cynghorydd Rheinallt Puw (Cadeirydd newydd y Gangen); Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Cyn-gadeirydd); Y Cynghorydd Marc Jones (Ymgeisydd Senedd Ewrop); Y Cynghorydd Ann Williams (Is-gadeirydd newydd); Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Ymgeisydd Senedd San Steffan Etholaeth Aberconwy - 2015); Y Cynghorydd Mary Jones (Ysgrifennydd y Gangen).

Yr un oedd lleoliad ein bore coffi ar y Sadwrn canlynol, sef Gŵyl Ddewi. Cafwyd nifer dda yno ac fe wnaed elw anrhydeddus i goffrau'r Gangen, ac fe gafodd pawb gyfle i gyfarfod a chael sgwrs gyda'r Cynghorydd Siân Gwenllian, sef ymgeisydd ar gyfer Cynulliad Cymru yn yr etholaeth. Da oedd ei gweld yn ein plith.

Diolch i staff Caffi Coed y Brenin ar yr achlysuron am eu gwasanaeth ardderchog fel pob amser.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:- Mawrth 25ain yng Nghanolfan Cefnfaes am 7.00



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgwymerwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

**STEPHEN
JONES**
†
**TREFNYDD
ANGLADDAU**

**Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd**

Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *

* Gardd Gwrw * Te a Choffi *

Oriau Agor

Llun - Gwener: 6.00 - 11.00

Sadwrn: 3.30 - 12.00

Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 - 11.00

01248 600219

www.douglas-arms-bethesda

Cewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhos Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffï neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw



Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

Llanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Adran y Gymraeg

Taith Blwyddyn 7 i Fetws y Coed a Chwm Idwal

Ddydd Gwener, y seithfed o Chwefror, aeth criw o flwyddyn 7 ar daith i Fetws y Coed. Pwrpas y daith oedd mynd i gasglu gwybodaeth am yr amgylchedd ac am yr ardal rydym yn byw ynddi a pharatoi at gystadleuaeth Cadwch Gymru'n Daclus.

Ar ôl cyrraedd Betws y Coed cawsom wybodaeth am hanes y pentref a'r ardal. Ar ôl hynny cawsom gyfle i ofyn cwestiynau i bobl yn y siopau ac ymwelwyr ar y stryd. Cawsom gyfle i wyllo ffilm arbennig yn y ganolfan a chefais lawer o wybodaeth amgylcheddol pwysig am yr ardal; roedd hyn yn ddiddorol dros ben.

Ar ôl treulio amser ym Metws y Coed aethom ar y bws yn ôl i gyfeiriad Cwm Idwal. Pan gyrhaeddodd Gwm Idwal aethom hanner milltir i fyny'r mynydd a chael cyfle i dynnu lluniau o Lyn Idwal. Roedd y lluniau hyn yn gorfod adlewyrchu geiriau Bardd Plant Cymru, Aneirin Karadog, yn ei gerdd am Lyn Idwal. Ar ôl hynny cawsom gyflwyniad gan warden Cwm Idwal; roedd yn ddiffr iawn.

Cefais ddiwrnod gwych efo blwyddyn 7 a dysgais nifer o bethau newydd am fy ardal i.

Yr Adran Addysg Gorfforol

Rygbi

Llongyfarchiadau i dîm rygbi dan 14 yr ysgol am ennill o 19 - 0 yn erbyn Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn rownd gyntaf genedlaethol cystadleuaeth ysgolion Cymru.

Pob lwc iddynt yn y gêm nesaf yn erbyn Ysgol Glan y Môr, Pwllheli.

Athletau

Bu Ceri Hulme, Samantha Lewis, Sophie Ellis a Beca Nia yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth atletau dan do Gogledd Orllewin Cymru yn ddiweddar. Bydd y pedair yn cynrychioli tîm ym mhencampwriaethau Cymru yng Nghwbrân, pob lwc iddynt!



Ceri Hulme, Samantha Lewis, Sophie Ellis a Beca Nia

Cofeb y Streic

Cafodd côr iau yr ysgol wahoddiad i recordio cân ar gyfer safwe yn coffau'r streic. Mae recordiad o 'Cân y Pwddin' gan y côr i'w glywed ar y safwe yma, ewch i weld y gofeb yn ymyl Capel Jerwsalem a'i sganio gyda'ch ffôn symudol i gael clywed y recordiad.

Dafydd Williams (7 Glyder)

Ysgol Pen-y-bryn

PC Dewi Thomas

Braf oedd cael croesawu PC Dewi Thomas atom ni ar Chwefror 17eg. Mwynhaodd y plant ei gyflwyniad am ddiogelwch y we ac roedd yn amlwg eu bod wedi dysgu llawer am bwysigrwydd defnyddio'r we yn iawn. Diolch PC Dewi Thomas a welwn ni chi eto.

Amgueddfa Lechi Llanberis

Ar Chwefror 4ydd cafodd blant Tryfan brofiad arbennig yn ystod 'Diwrnod Golchi' yn Amgueddfa Lechi Llanberis. Bu'r plant yn dysgu am fywyd ers talwm ac yn gwyllo Anti Marged yn golchi dillad gan ddefnyddio offer yr oes honno. Cawsant wneud sebon hefyd, a oedd yn brofiad difyr. Diolch i bawb yn yr Amgueddfa am y croeso.

Ymwelydd

Ar Fawrth 11eg, daeth PC Dylan Pritchard i'r ysgol er mwyn arsylwi gwersi a chael syniadau ar gyfer gallu cynnal gwersi ei hun gyda phlant yn y dyfodol. Gobeithiwn ei fod wedi mwynhau'r profiad ac wedi cael 'tips' buddiol!

P'nawn Agored

Roedd yr ysgol yn hynod falch o groesawu rhieni a phlant blwyddyn 2 Ysgol Abercaseg ar Chwefror 19eg. Cawsant gyflwyniad gwych gan rai o blant dosbarth Tryfan ac yna cawsant flas o wahanol wersi a thaith o amgylch yr ysgol. Roedd yn gyfle arbennig i'r plant ymglyfarwyddo â'r ysgol, y staff a'r plant ac i'r rhieni allu ofyn unrhyw gwestiynau. Diolch yn fawr i bawb a ddaeth.

Ysgol Rhiwlas

Yr Heddlu

Helo, helo helo, pwy sydd wrth y drws!!!! Cafwyd ymweliad unwaith eto gan PC Dewi Tomos a fu'n ymweld â disgyblion yr adran iau. Bu'n trafod pwysigrwydd cadw yn ddiogel wrth ddefnyddio'r We gan dynnu sylw'r plant at reolau pwysig sut i ymddwyn ar y We. Diolch yn fawr PC Tomos.

Ffair Sborion

Bu 'Cyfeillion Ysgol Rhiwlas' hefyd yn brysur iawn yn casglu nwyddau amrywiol er mwyn eu gwerthu yn y ffair sborion a gynhaliwyd yn yr ysgol y mis hwn. Llwyddwyd i godi dros £250 i goffrau'r cyfeillion, a fydd maes o law yn cael ei wario ar yr ysgol. Diolch yn fawr i bawb a gyfranodd ac a fu'n helpu.

Gymnasteg

Llongyfarchiadau i Erin a fu'n cynrychioli Rhanbarth Eryri yng Nghystadleuaeth Gymnasteg Ysgolion Cynradd yr Urdd yn Aberystwyth yn ddiweddar – rhoddodd gyflwyniad arbennig ac mae pawb yn falch iawn o'i llwyddiant. Da iawn ti.

Diwrnod y llyfr

Cafwyd diwrnod prysur iawn yn yr ysgol gyda nifer o weithgareddau yn mynd ymlaen – gan gynnwys yr athrawon a'r plant yn darllen detholiad o'u hoff lyfrau i'w gilydd. Buom yn lwcus hefyd i fedru trefnu bod y sioe 'Hei hogia' – sef sioe deithiol y llyfrgell yn cyrraedd yr ysgol ar yr union ddiwrnod, a chafodd plant yr adran iau glywed actorion profesiynol yn darllen detholiad o lyfrau.

O gastell i gastell

Bu'r adran iau, fel rhan o'u gwaith ar Dywysogion Gwynedd, yn ymweld a Chastell Caernarfon a Chastell Dolbadarn. Buom yn ddigon lwcus hefyd i gael ein harwain eto gan Rhys Mwyn ar daith hanesyddol. Cafwyd diwrnod diddorol iawn a chafwyd llawer i hanesyn diddorol oedd yn tanio dychymyg y plant.

Yr Urdd

Pob lwc i'r disgyblion sy'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Cylch Bangor Ogwen ar y llwyfan ac yn y cystadlaethau gwaith cartref / celf.

Y Rhyfel Byd Cyntaf

Y tymor nesaf o fewn ein gwaith hanes byddwn yn astudio y Rhyfel Byd Cyntaf a'i effaith ar bentref ac ardal Rhiwlas. Byddem fel ysgol yn gwerthfawrogi unrhyw wybodaeth neu gymorth gan unrhyw un sydd a gwybodaeth / straeon ac a fyddai'n fodlon efallai rhoi benthg neu adael i ni lungopio artiffactau neu ddogfennau perthnasol.

Ysgol Abercaseg



Yn anaml y gwelir hofrennydd wedi glanio ar iard ysgol, ond dyna'n union ddiwyddodd i Ysgol Abercaseg ar ddechrau'r mis. Galwyd ar Wasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru yn dilyn damwain i hogyn bach tair mlwydd oed a drawyd gan gar ar ei ffordd i'r ysgol. Yn ffodus mae'r hogyn yn iawn erbyn hyn.

Cwmni Drama'r Frân Wen

Bu plant Blwyddyn 2 yr ysgol yn ffodus iawn yn ddiweddar o gael cymryd rhan mewn gweithdai oedd yn cael eu cynnal gan Gwmni Drama'r Frân Wen. Cawsant ddefnyddio'u dychymyg i greu cymeriadau diddorol ac yna ymgorffori'r cymeriadau hyn mewn stori. Gwelwyd ffrwyth eu llafur pan ddaeth y Cwmni'n ôl i'r ysgol yn ddiweddar i berfformio'r ddrama orffenedig, sef 'Y Cwprdd Dillad'. Tybed os ydym wedi creu actorion a chynhyrchwyr y dyfodol!

P.C.Dewi Thomas

Rhoddodd blant yr ysgol groeso i PC Dewi Thomas eto'r tymor hwn. Ei thema oedd 'Pobl sy'n ein helpu'. Cafodd ymateb brwdfrydig unwaith eto gyda'r plant wrth eu boddau'n cael cyfle i wisgo dillad yr heddlu!

Dathlu Blwyddyn Newydd Tsieiniaidd

Er mwyn dathlu'r flwyddyn newydd Tsieiniaidd, daeth y plant â phob math o bethau diddorol o naws Tsieiniaidd i'r ysgol i'w dangos. Roedd y pethau hyn yn amrywio o wisgoedd a llyfrau o Tsieina i lentyrn a dreigiau lliwgar. Ond, mae'n debyg mai uchafbwynt y diwrnod i'r plant oedd gwranddo ar Mr Chan, tad Mena o'r dosbarth Meithrin, sydd â'i wreiddiau yn Hong Kong, yn siarad am ddiwylliant Tsieina. Gellid clywed y geiriau 'yat', 'yee', 'lurng', 'sarm', 'say', sef y rhifau o un i bump, yn cael eu hadrodd gan y plant y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol trwy'r dydd! Parod iawn oeddent hefyd i flasau rhai o fwydydd Tsieina yr oedd Mr Chan wedi eu paratoi iddynt a doedd dim rhaid iddynt ddweud os oeddent yn eu mwynhau ai peidio – roedd eu hwynebau'n dweud y cyfan! Diolch Mr Chan am y sgwrs hwyliog a'r wledd flasus!

'Pedr a'r Blaidd'

Ddechrau Mis Mawrth cafodd plant Blwyddyn 2 yr ysgol drip i Theatr Venue Cymru yn Llandudno i weld perfformiad yn darlunio stori Pedr a'r Blaidd gan Ensemble Cymru. Mae'r Ensemble yn gorff a sefydlwyd yn 2001 i hyrwyddo perfformiadau o gerddoriaeth siambr o'r radd flaenaf. Roedd pob offer yn yn y cyflwyniad yn cynrychioli cymeriad yn y stori. Dangosodd y plant i gyd ddiddordeb brwd yn y perfformiad gyda nifer fawr ohonynt wedi dewis pa offer yn yr hoffent ddysgu ei chwarae'n y dyfodol.

Wythnos Gymreig

Rydym ni yn Ysgol Abercaseg yn falch iawn o'n Cymreictod ac er mwyn dathlu hyn penderfynwyd cael wythnos Gymreig yn yr ysgol. Yn ystod yr wythnos, cafodd rhieni plant Blwyddyn 2 wahoddiad i weld aelodau o'r clwb drama yn actio hanes Dewi Sant a chafodd plant pob dosbarth y mwynhad o wrando ar hen chwedlau Cymreig fel chwedl Branwen a chwedl Blodeuwedd. Gyda help Anti Marian, ein cogyddes, gwnaeth plant Blwyddyn 2 gacennau cri i'w gwerthu. Diolch Anti Marian am eich help – mae 600 o gacennau cri yn nifer enfawr i'w coginio!

Ysgol Tregarth

Ymweliad i'r Archfarchnad

Yn ystod yr hanner tymor diwethaf aeth dosbarth Llywelyn i archfarchnad Tesco ym Mangor. Roedd pawb wedi mwynhau cael mynd o amgylch y manau bwyd amrywiol, yn enwedig y becws. Hwyl oedd cael blasu'r holl fwyd Masnach Deg a welwyd yn y siop, blasus iawn!

Trip Dosbarth Tryfan

Fel rhan o waith thema'r dosbarth 'Cestyll a Dreigiau', yn ystod yr hanner tymor diwethaf cafodd dosbarth Tryfan gyfle i ymweld â chastell Caernarfon a Chastell Dolbadarn. Bu'r profiad yn gyfle gwerthfawr i geisio dysgu mwy am y cestyll enwog a'u cymharu.

Mewn Cymeriad

Cafodd Dosbarthiadau Ogwen a Ffrydlas wledd pan ddaeth cwmni 'Mewn Cymeriad' ar eu hail ymweliad a'r Ysgol, y tro hwn gyda chymeriad yr arwres Buddug. Cafodd y plant fodd i fyw yn chwarae rôl y Rhufeiniaid a'r Brythoniaid a thrwy hyn ddysgu am hanes a bywyd Buddug. Cyflwyniad bywiog, byrlymus a roddodd bleser mawr i'r plant.

Ymweliad Rachel Luxton

Cafodd Dosbarth Ffrydlas ymweliad gan Rachel Luxton (mam Cushla) i ddangos sioe Magic Lantern fel y byddai plant o'r cyfnod Fictoriaidd wedi rhyfeddu ato. Roedd ganddi sleidiau lliw gwreiddiol o'r cyfnod yn dangos amrywiaeth o luniau o wahanol rannau o'r byd. Fe ddaeth â popcorn hyd yn oed, i gwblhau'r profiad. Diolch iddi am ddod a thrysor teuluol fel hyn i'w rannu gyda'r plant.

Ysgol Llanllechid

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Anti Carol ar ddod yn Nain. Ganwyd hogyn bach i'r teulu o'r enw Cian Dewi.

Brysiwch wella

Dymuniadau gorau i Anti Gillian – gobeithio y bydd y droed yn well yn fuan ac y brysiwch nôl atom!!

Llwyddiant Galeri Llechid

Y cam cyntaf oedd ymweld â'r Galeri Walker yn Lerpwl. Wedi hynny, penderfynwyd creu galeri yn Ysgol Llanllechid ac roedd dylanwad Van Gogh, Matisse, Kandinsky a Pollock, yn ogystal ag artistiaid lleol yn amlwg yng Ngaleri Llechid ar yr ugeinfed o Fawrth 2014. Blwyddyn 6 oedd yn gyfrifol am yr arddangosfa ac nid lluniau yn unig a edmygwyd gan rieni a ffrindiau'r ysgol. Roedd yno gampweithiau o glai, cyflwyniadau am artistiaid ar gyfrifiadur, cyfle i wneud gwaith artistig digidol rhyngweithiol a chyfle i'r rhieni ymlacio gan ddarlunio gwrthrychau amrywiol gan beintio mewn arddull Tsieineiaidd. Ac i gystadlu gyda'r enfys o liwiau, roedd yna wledd o ffrwythau a llyisiau iach. Roedd yn brynghawn hyfryd o gefnogaeth i'r disgyblion a chwmniaeth hwyliog i gymuned yr ysgol. Llongyfarchiadau i F16 ar eu llwyddiant!

Buddug-oliaeth

Llwyddiant ysgubol oedd ymweliad Buddug ag Ysgol Llanllechid wrth iddi gyffroi'r dorf i wrthryfela yn erbyn y Rhufeiniaid. Mewn un wers cawsom hanes, actio, daearyddiaeth a hwyl wrth ddysgu am gorwynt o arwres yn ein hanes, sef Buddug (Boudicca i'r Rhufeinwyr).

Stwnsh

Daeth criw 'Stwnsh' [S4C] i'r ysgol yn ddiweddar er mwyn hyrwyddo rhaglenni Cymraeg ar gyfer plant 7-11, - a dyna i chi hwyl a gafwyd! Roedd y cyflwynwyr, sef Anni Llŷn a Lois Cernyw yn llawn bywyd wrth chwarae pob math o driciau a gemau gyda'r plant a'r athrawon a Chware teg i Mr Stephen Jones am dderbyn y slepjan gyda gwên!

CYW S4C

Edrychwn ymlaen at gael gweld rhai o'n disgyblion yn cymryd rhan yn rhaglen BENDANT yn ystod tymor yr haf.

Hei hogiau bach!

Daeth yr actorion Catrin Mara a Dyfrig Evans i ddarllen storiâu yn Gymraeg ac yn Saesneg i'r plant hynaf. Cafodd y plant flas mawr ar y llyfrau a'r perfformiadau ac mae llawer wedi ymweld â'r llyfrgell ym Methesda er mwyn cael benthyg y llyfrau.

Oriel Môn

I Oriel Môn, Llangefni yr aeth y dosbarth Derbyn a chael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau celf dan arweiniad yr artist lleol, mam Efa

Ysgol Llanllechid (parhad)

Lois a Mali Fflur sef Anwen Burgess. Cafodd y plant brofiadau bendigedig gan gynnwys gweld darluniau Kyffin Williams a dysgu am dirluniau. llun

Diwrnod crempog

'Os gwelwch chi'n dda ga'i gremfog?' Dyna oedd y gân ar y diwrnod arbennig hwn! Roedd crempogau lu ym mhob dosbarth, - pawb yn gweithio'n galed yn cymysgu a phawb wrth eu boddau'n bochio bwyta!

Diwrnod y llyfr

Unwaith eto eleni, daeth pawb i'r ysgol wedi gwisgo fel eu hoff gymeriadau o fyd y llyfrau! Cafwyd diwrnod yn gwranddo ar wahanol straeon a phawb yn cael cyfle i drafod eu hoff lyfrau.

Gŵyl Ddewi

Cynhaliwyd cyngerdd Gŵyl Ddewi yn neuadd yr ysgol ar Fawrth 7fed. Cafwyd gwledd eto eleni a phob plentyn o 3 oed hyd at 11 oed yn rhoi o'i orau. Cafwyd cyflwyniadau amrywiol a phob dosbarth yn dangos eu doniau yn eu gwisgoedd Cymrieg. Diolch i chi rieni a ffrindiau'r ysgol am ddod i'n cefnogi. Diolch i Mrs Macdonald a chriw'r gegin am y cinio cig oen blasus a'r bara brith! llun

Wyneb Cyfarwydd yn yr Ysgolion



PC Dewi Thomas, sy'n ymwelydd cyson ag ysgolion yr ardal.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA 'LLENW'R CWPAN'

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau

rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs
Caffi Fitzpatrick
Bethesda
11.00 – 12.00
Dydd Sadwrn
cyntaf pob mis

Peint a Sgwrs
Douglas Arms
Bethesda
20.00 – 21.00
Trydydd Nos Lun
pob mis

S4/C Calon Cenedl
Heart of the Nation

Isdeitlau
Subtitles

35 Diwrnod
9.00
Yn dechrau
23 Mawrth
Corff, cyfrinachau, a llond
stâd o amheuon. Cyfres
ddrama newydd lle mae
bob diwrnod yn cyfrif.
#35diwrnod
s4c.co.uk



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williams@parliament.uk